**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU: TREFNIADAU I HYRWYDDO CYFLE CYFARTAL BLWYDDYN ARIANNOL 2002 - 2003**

**CYNNWYS**


| | |
|---|---|
| **Datganiad i'r Cyfarfod Llawn ar drefniadau'r Cynulliad i hyrwyddo cyfle cyfartal** | 3 |
| | |
| **Atodiad A: Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Cyfle Cyfartal** | 5 |
| Manylion am yr adroddiad | 5 |
| Cefndir y Pwyllgor | 5 |
| Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal Blaenorol | 6 |
| Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal yn yr Ail Gynulliad | 10 |
| Atodiad A1 - Cylch Gorchwyl | 12 |
| Atodiad A2 - Aelodau'r Pwyllgor | 14 |
| Atodiad A3 - Crynodeb o'r agendâu | 16 |
| Atodiad A4- Crynodeb o weithgareddau allweddol y Pwyllgor Cyfle Cyfartal yn ystod y Cynulliad Cyntaf | |
| Atodiad A5 - Blaenraglen waith ddrafft ar gyfer 2003 - 2004 | 25 |
| | |
| **Atodiad B: Adroddiad oddi wrth Glerc y Cynulliad ar Hyrwyddo Cyfle Cyfartal ym Musnes y Cynulliad** | 28 |
| Rhagarweiniad | 28 |
| Mynediad at Fusnes y Cynulliad | 28 |
| Mynediad at wybodaeth | 29 |
| Mynediad Corfforol i'r Cynulliad | 30 |
| Gwasanaethau'r Pwyllgorau ac Ymchwil yr Aelodau | 31 |
| Mentrau Adnoddau Dynol yn Swyddfa'r Llywydd | 32 |
| | |
| **Atodiad C: Adroddiad yr Ysgrifennydd Parhaol ar y Gwaith i Hyrwyddo Cydraddoldeb yng Ngwaith Staff y Cynulliad** | 35 |
| Rhagair gan Syr Jon Shortridge KCB - Yr Ysgrifennydd Parhaol | |
| Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio: | 37 |
| *Y Gyfarwyddiaeth Dai* | |
| *Y Gyfarwyddiaeth Gymunedau* | |
| *Yr Uned Polisi Cydraddoldeb* | 43 |
| Iechyd & Gwasanaethau Cymdeithasol: | 51 |
| *Cyfarwyddiaeth y GIG: Adran GIG Cymru (AGIGC)* | |
| *Is-adran Hybu Iechyd (HPD)* | 52 |
| *Is-adran Diogelu Iechyd y Cyhoedd (PHPD)* | 53 |
| *Is-adran Strategaeth Iechyd y Cyhoedd (PHSD)* | |
| *Grwp Proffesiynol Iechyd* | 54 |
| Addysg a Dsgu Gydol Oes: | 55 |
| *Yr Adran Addysg a Hyfforddiant (AHA): Yr Is-adran Dysgu Gydol Oes (DGO)* | |
| *Yr Is-adran Addysg Uwch (AU)* | |
| *Yr Is-adran Safonau a Pherfformiad (SPD)* | 57 |
| *Yr Adran Bolisi Hyfforddi, Sgiliau a Gyrfaoedd (APHSG)* | |
| Yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad: | |
| *Grwp yr Amgylchedd a Chynllunio (Ir Is-adran Trafnidiaeth, Cynllunio* | 57 |

| | |
|---|---|
| *a'r Amgylchedd gynt)* | |
| *Y Gyfarwyddiaeth Drafnidiaeth* | 58 |
| *Yr Is-adran Gynllunio* | 59 |
| *Is-adran Cefn Gwlad* | |
| *Yr Adran Amaethyddiaeth* | 60 |
| Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon: | 61 |
| *CADW - Welsh Historic Monuments* | |
| Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth: | |
| *Yr Adran Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth* | |
| *Yr Is-adran Materion Ewropeaidd ac Allanol (EEAD)* | 62 |
| *Yr Is-adran Polisi Economaidd (EPD)* | |
| *Is-adran Arloesedd a Thwf Cynaliadwy (ISG)* | |
| *Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru* | |
| Cyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus: | 64 |
| *Yr Is-adran Moderneiddio Llywodraeth Leol (AMLlL)* | |
| Y Cynulliad Corfforaethol | 66 |
| *Y Grwp Gwasanaethau Personél ac Adeiladau* | |
| *Yr Is-adran Gwasanaethau Rheoli (MSD)* | 68 |
| *Y Grwp Cyllid: Yr Is-adran Cynllunio Ariannol* | |
| *Y Grwp Strategaeth a Chyfathrebu Y Gyfarwyddiaeth Gyfathrebu* | |
| *Yr Uned Polisi Strategol* | |
| *Yr Is-adran Cyngor Economaidd* | |
| *Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol* | 70 |

**DATGANIAD AR ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CYNULLIAD AR GYDRADDOLDEB A WNAED O DAN ADRAN 120 O DDEDDF LLYWODRAETH CYMRU**

1. Dyma bedwerydd adroddiad blynyddol y Pwyllgor dros Gyfle Cyfartal o dan Reol Sefydlog 14.2 ar drefniadau'r Cynulliad i hyrwyddo cyfle cyfartal a'i effeithiolrwydd. Gwelir mwyafrif cynnwys yr adroddiad yn y tri atodiad:

- Atodiad A - adroddiad y pwyllgor ar ei weithgareddau dros y flwyddyn ariannol ddiwethaf;
- Atodiad B - adroddiad gan y Prif Ysgrifennydd ynghylch hyrwyddo cydraddoldeb yng ngwaith staff y Cynulliad
- Atodiad C - adroddiad gan Glerc y Cynulliad ar hyrwyddo cydraddoldeb ym musnes y Cynulliad o ddydd i ddydd.

2. Mae'r adroddiad yn berthnasol i'r flwyddyn ariannol 2002-2003 ac yn delio â'r gwaith a wnaed yn ystod y Cynulliad Cyntaf.

3. Mae'r adroddiad blynyddol yn rhoi gwybodaeth ffeithiol am y meysydd lle mae'r gwaith ar gydraddoldeb yn llwyddo yn ogystal â gwybodaeth fanwl am fentrau penodol. Mae'r Pwyllgor yn falch o weld bod yr agenda cydraddoldeb yn parhau i lwyddo ac yn croesawu'r llwyddiant mewn rhai meysydd penodol megis cyfnod cyntaf yr ymgyrch ar Gyflogau Cyfartal.

4. Yr oedd y Pwyllgor wedi'i siomi nad oedd yr adroddiad yn darparu mwy o dystiolaeth o'r ffordd yr oedd cydraddoldeb yn cael ei brif ffrydio yn y Cynulliad. Yr oedd y Pwyllgor yn gobeithio gweld, yn y dyfodol, strategaeth gyffredinol ar gyfer gwaith y Cynulliad ar gydraddoldeb, dadansoddiad mwy manwl o'r llwyddiant a dangosyddion perfformiad mwy ystyrlon.

5. Felly, mae'r Pwyllgor yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio i ddarparu adroddiad prif ffrydio manwl ar gyfer y Pwyllgor yng ngwanwyn 2004. Cred y Pwyllgor y dylai'r adroddiad hwn, a'r adroddiad terfynol o'i adolygiad polisi ei hun ar brif ffrydio, helpu i fwrw ymlaen â'r agenda brif ffrydio, a fydd yn ei dro yn arwain at welliannau sylweddol wrth wneud darparu gwasanaethau a llunio polisïau yn fwy cynhwysol.

## Blaenoriaethau'r dyfodol

6. Mae yma nifer o flaenoriaethau allweddol ar gyfer y dyfodol:

- Datblygu strategaeth brif ffrydio effeithiol ar gyfer y Cynulliad.
- Parhau â momentwm y Flwyddyn Ewropeaidd Pobl Anabl. Bydd y Pwyllgor yn cynnal adolygiad polisi gan edrych ar y materion a godwyd gan bobl ifanc anabl ynghylch eu profiadau o gael gafael ar wasanaethau.
- Cefnogi'r gwaith o weithredu'r ddeddfwriaeth gydraddoldeb bresennol yn effeithiol - yn enwedig ymateb i ofynion y Ddeddf Diwygio Cysylltiadau Hiliol, y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd a'r ddeddfwriaeth gwrth-

gwahaniaethu Ewropeaidd newydd sy'n cynnwys mwy o faterion cydraddoldeb.

- Ymateb i gynigion deddfwriaethol newydd, ac yn enwedig cynigion Llywodraeth y DU i greu un Corff Cydraddoldeb.
- Bydd llwyddo i roi strategaeth recriwtio drafft y Cynulliad ar waith a datblygu rhaglen allgymorth y Cynulliad yn bwysig er mwyn sicrhau nad yw polisïau mewnol y Cynulliad yn lleihau'r cyfleoedd sydd ar gael ar gyfer pobl o'r grwpiau sy'n cael eu tan-gynrychioli.

7. Mae'r Pwyllgor hefyd yn edrych ymlaen at dderbyn ymateb Llywodraeth y Cynulliad i'w adolygiad o'r gwasanaethau a ddarperir ar gyfer Sipsiwn a Chrwydriaid, ac yn bwysicach fyth at weld gwelliant ym mywydau Sipsiwn a Chrwydriaid yng Nghymru.

8. Gwnaeth yr etholiad amharu ar y broses o baratoi'r adroddiad eleni. Mae'r Pwyllgor yn edrych ymlaen at gyflwyno adroddiad blynyddol y flwyddyn nesaf yn fuan ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yn 2004.

## ATODIAD A: ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR CYFLE CYFARTAL

## YR ADRODDIAD HWN

1. Mae'r adroddiad hwn yn rhan o adroddiad blynyddol y Cynulliad ar ei drefniadau i hyrwyddo cyfle cyfartal. Mae'n amlinellu gweithgareddau'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal yn ystod y flwyddyn ariannol 2002 - 2003. Mae'r cyfnod hwn yn cynnwys y Cynulliad Cyntaf, ac felly mae'r adroddiad yn dyfynnu llawer iawn o adroddiad diwedd sesiwn y Pwyllgor Cyfle Cyfartal blaenorol.

2. Yn ogystal ag adrodd ynghylch gwaith y Pwyllgor blaenorol, mae'r adroddiad hefyd yn amlinellu blaenoriaethau'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal newydd ar gyfer y flwyddyn ariannol 2003 - 2004.

## CEFNDIR Y PWYLLGOR

3. Mae Rheolau Sefydlog y Cynulliad yn ei gwneud yn ofynnol i'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal archwilio trefniadau'r Cynulliad i hyrwyddo cyfle cyfartal i bawb wrth arfer ei swyddogaethau a'r modd y mae'n cynnal ei fusnes. Mae adrannau 48 a 120 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad hyrwyddo'r egwyddor y dylai pawb gael cyfle cyfartal.

4. Nodir manylion cylch gwaith y Pwyllgor yn Rheol Sefydlog 14 (Atodiad A1). Amlinellir aelodaeth y Pwyllgor yn Atodiad A2.

5. Mae gan y Pwyllgor nifer o wahoddedigion sefydlog sy'n rhoi cyngor arbenigol iddo. Y gwahoddedigion yw Y Comisiwn Cyfle Cyfartal, Y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol, Y Comisiwn Hawliau Anabledd a Stonewall Cymru.

6. Mae Rheol Sefydlog 14 yn ei gwneud yn ofynnol i’r Pwyllgor roi sylw arbennig i’r angen i’r Cynulliad osgoi gwahaniaethu ar sail rhyw, hil neu anabledd. Tra'n cynnal y ffocws yma, mae'r Pwyllgor hefyd yn ystyried mathau eraill o wahaniaethu ac allgáu cymdeithasol gan gynnwys oed, crefydd a thueddfryd rhywiol.

## Y PWYLLGOR CYFLE CYFARTAL BLAENOROL

7. Mae'r adran ganlynol yn amlinellu'r materion allweddol a ystyriwyd gan Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal yn ystod y flwyddyn ariannol 2002 - 2003 - yn seiliedig ar ddarnau o adroddiad diwedd sesiwn y Pwyllgor blaenorol.

8. Ceir manylion ynghylch agenda pob cyfarfod yn Atodiad A3. Ceir tabl yn rhoi crynodeb o weithgareddau'r Pwyllgor drwy gydol cyfnod y Cynulliad cyntaf yn Atodiad A4.

***Yr adolygiad o'r gwasanaethau a ddarperir i Sipsiwn a Chrwydriaid***

9. Mae'r adolygiad o'r gwasanaethau a ddarperir i Sipsiwn a Chrwydriaid wedi bod yn un o brif elfennau gwaith y Pwyllgor ers mis Hydref.

10. Yn ystod ei gyfarfodydd, mae'r Pwyllgor wedi derbyn tystiolaeth gan amryw o ddarparwyr gwasanaethau ym meysydd iechyd, addysg a llety, yn ogystal â chlywed gan grŵp o bobl ifanc o'r gymuned Sipsiwn Crwydrol. Mae'r Pwyllgor hefyd wedi ymweld â nifer o safleoedd Sipsiwn Crwydrol ac wedi cynnal seminar i'r bobl sy'n darparu gwasanaethau ar eu cyfer.

11. Cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad ym mis Ebrill.

***Penodiadau Cyhoeddus***

12. Mae'r Pwyllgor wedi ystyried ymhellach y prosesau sy'n arwain at benodiadau cyhoeddus, er mwyn sicrhau y ceir cynrychiolaeth ehangach ar draws holl ystod y gymdeithas.

13. Ym mis Rhagfyr 2002, derbyniodd y Pwyllgor gyflwyniad gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ynghylch nifer y siaradwyr Cymraeg ar fyrddau cyrff y GIG. Yn ystod yr un cyfarfod, trafododd y Pwyllgor gyflwyniad gan Glymblaid Genedlaethol Menywod Cymru ynghylch profiad menywod o benodiadau cyhoeddus.

14. Yn ei gyfarfod ym mis Mawrth derbyniodd y Pwyllgor y newyddion diweddaraf ynghylch gwaith y Pwyllgor o ran penodiadau cyhoeddus.

***Cyflog Cyfartal***

15. Ddechrau 2001, cyhoeddwyd adroddiad Tasglu'r Comisiwn Cyfle Cyfartal, *Cyflog Teg*, a oedd yn tynnu sylw at y ffaith bod y bwlch rhwng cyflogau dynion a menywod wedi aros ar lefel annerbyniol o uchel.

16. Ym mis Gorffennaf 2001, sefydlwyd grŵp cyfeirio anffurfiol, o dan gadeiryddiaeth David Melding, i oruchwylio datblygiad ymgyrch ar Gyflog Cyfartal gan y Cynulliad, y Comisiwn Cyfle Cyfartal a Chyngor Undebau Llafur Cymru. Lansiwyd yr ymgyrch yn ffurfiol ar 7 Mawrth 2002 yng Nghaerdydd ac Abertawe ac mae cyfres o seminarau i'r sector cyhoeddus wedi'u cynnal yn dilyn hynny.

17. Mae'r Pwyllgor wedi monitro hynt yr ymgyrch yn ystod y flwyddyn, ac y mae'n croesawu'r cyhoeddiad bod y Cynulliad wedi ennill Gwobr Castle am ei

waith yn hyrwyddo cyflog cyfartal. Bydd y Pwyllgor yn ystyried adroddiad ar yr ymgyrch yn ei gyfarfod ym mis Mawrth, ac y mae'n bwriadu gwneud argymhellion ynghylch sut y gellir bwrw ati â'r ymgyrch.

***Y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio)***

18. Daeth y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000 i rym ym mis Ebrill 2001 a rhoddodd ddyletswydd ar bob awdurdod cyhoeddus i gael gwared ar wahaniaethu hiliol. Mae hefyd yn rhoi pŵer i'r Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol ddrafftio codau ymarfer ar gyfer unrhyw grŵp o bobl a enwir yn y Ddeddf ac, ar ôl ymgynghori a chael cymeradwyaeth yr Ysgrifennydd Gwladol, i osod y codau hynny gerbron y Senedd a'u gorfodi gan y Comisiwn.

19. Nododd y Pwyllgor y bydd y dyletswyddau statudol sy'n cael eu gorfodi ar gyrff cyhoeddus gan y Ddeddf yn cael effaith arwyddocaol ar hyrwyddo cydraddoldeb hiliol. Mae'r Pwyllgor wedi derbyn y newyddion diweddaraf ar ddatblygiad cynllun cydraddoldeb hiliol y Cynulliad. Ym mis Chwefror 2003, trafododd y Pwyllgor adroddiad gan y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol ar berfformiad cyrff cyhoeddus yng Nghymru wrth baratoi cynlluniau cydraddoldeb hiliol. Cytunodd y Pwyllgor gynnal asesiad pellach o'r cynnydd a gafwyd yn y maes hwn.

***Adroddiad McKenzie - Codi Pob Llais***

20. Croesawodd y Pwyllgor adroddiad Roger McKenzie, *Codi Pob Llais: Adroddiad a Chynllun Gweithredu i fynd i'r afael â hiliaeth sefydliadol yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru*, pan y'i cyhoeddwyd ym mis Mawrth 2001. Mae'n annog y Cynulliad a'r pleidiau gwleidyddol yng Nghymru i roi'r argymhellion yn yr adroddiad ar waith. Ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2002, rhoddodd swyddogion y Cynulliad y newyddion diweddaraf i'r Pwyllgor ynghylch y modd y rhoddwyd yr adroddiad yn ei gyfanrwydd ar waith, yn ogystal ag argymhellion penodol. Roedd y Pwyllgor hefyd yn falch i dderbyn asesiad o'r modd y rhoddwyd ef ar waith hyd yn hyn gan Roger McKenzie ym mis Rhagfyr 2002. Derbyniodd y Pwyllgor y newyddion diweddaraf yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2003.

***Mynediad i orsafoedd pleidleisio***

21. Mae'r Pwyllgor wedi parhau i gymryd diddordeb byw ym mater mynediad i orsafoedd pleidleisio. Yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd 2002, trafododd y Pwyllgor y mater gyda chynrychiolwyr y Comisiwn Hawliau Anabledd, Scope a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Argymhellodd y Pwyllgor y dylid cynnal astudiaeth o fynediad, tebyg i'r adroddiadau "Polls Apart" gynt, yn ystod etholiadau'r Cynulliad. Roedd y Pwyllgor yn falch iawn y cytunodd y Gweinidog dros Lywodraeth Leol a Thai i fwrw ati â'r argymhelliad hwn.

22. Ym mis Mawrth 2003, bydd y Pwyllgor yn ystyried ei ymateb i ymgynghoriad y Comisiwn Etholiadol ar fynediad cyfartal i weithdrefnau etholiadol.

***'Equality and Diversity: Making it Happen' - ymgynghoriad Llywodraeth y DU ar Un Corff Cydraddoldeb***

23.  Yn ei gyfarfod ym mis Chwefror 2003, ystyriodd y Pwyllgor ymgynghoriad Llywodraeth y DU ar y cynigion ar gyfer un corff cydraddoldeb.  Roedd y Pwyllgor yn gallu ystyried canlyniadau cyfres o ddigwyddiadau ymgynghori a gynhaliwyd ledled Cymru, a barn y comisiynau statudol dros gydraddoldeb.

24. Yr egwyddor allweddol sy'n sail i ystyriaeth y Pwyllgor o'r ymgynghoriad yw y mai dymuniad i hyrwyddo a datblygu cydraddoldeb a ddylai yrru'r gwaith o ddiwygio'r strwythurau presennol.  Ni ddylid cychwyn arno fel ateb cyflym i broblem weinyddol, ac ni ddylid ei ddefnyddio at ddiben mantais economaidd. Pwysleisiodd y Pwyllgor y byddai angen un deddf yn sail i'r corff newydd, a bod un deddf cydraddoldeb yn hanfodol er mwyn iddo weithio'n effeithiol.  Yn ogystal, pwysleisiodd y Pwyllgor fod angen i unrhyw gorff newydd gael presenoldeb cryf a mwy neu lai annibynnol yng Nghymru, gyda chysylltiadau ffurfiol â'r Cynulliad. Byddai hyn yn rhoi llais go iawn i'r Cynulliad yn y modd y câi'r corff newydd ei reoli, ac yn ei gyfeiriad strategol.   Cododd y Pwyllgor y materion hyn yn ei ymateb i'r ymgynghoriad a bydd yn parhau i ddilyn hynt y maes.

***Tueddfryd rhywiol***
25. Yn ei gyfarfod ym mis Hydref 2002, derbyniodd y Pwyllgor gyflwyniad gan un o'i wahoddedigion sefydlog mwyaf diweddar, Fforwm LGB Cymru.  Yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2003, bydd y Pwyllgor yn ystyried y gwaith a gyflawnwyd yn mynd i'r afael â nifer o faterion a godwyd yn y cyflwyniad hwnnw.  Bydd hyn yn cynnwys y newyddion diweddaraf am ddarparu canllawiau i golegau hyfforddi athrawon ynghylch rhoi cyngor ar hunaniaeth a thueddfryd rhywiol; cynlluniau cofrestru partneriaethau sifil; cydnabod perthnasau y tu allan i briodas mewn cynlluniau pensiwn; diddymu Adran 28 a goblygiadau pleidlais Tŷ'r Arglwyddi ar y Mesur Mabwysiadu a Phlant.

***An Absolute Duty***
26.  Yn ei gyfarfod ym mis Ionawr 2003, trafododd y Pwyllgor sut y gellid gweithredu'r argymhellion a geir yn "An Absolute Duty", adroddiad a gyhoeddwyd dan arweiniad yr Athro Teresa Rees ar ran y Sefydliad Materion Cymreig.

***Diabetes UK***
27.  Yn ei gyfarfod ym mis Hydref 2002, derbyniodd y Pwyllgor gyflwyniad ar gyfres o brosiectau y mae Diabetes UK yn eu rhedeg i ddarparu gwybodaeth hybu iechyd yn hawdd a gwella mynediad i wasanaethau gofal iechyd yn gyffredinol ar gyfer cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig.

***Iaith Arwyddion Prydain***
28.  Yn ei gyfarfod ym mis Chwefror 2003, derbyniodd y Pwyllgor gyflwyniad ar Iaith Arwyddion Prydain (BSL).  Cytunodd y Pwyllgor fwrw ati â nifer o gamau er mwyn hyrwyddo'r defnydd a wneir o Iaith Arwyddion Prydain, a'r gydnabyddiaeth swyddogol a geir iddi.

**Cyrff cyhoeddus sydd ynghlwm â hyrwyddo cyfle cyfartal**

***Y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol***

29. Ar 17 Hydref 2002 bu'r Pwyllgor yn ystyried Adroddiad Blynyddol y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol yn unol â Rheol Sefydlog 6.6. Y prif faterion oedd yn codi o'r adroddiad oedd:

- hyrwyddo'r ddyletswydd gyhoeddus o dan Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000;
- meithrin partneriaethau gyda'r sector preifat;
- cysylltu â phob cymuned;
- parhau â'r gwaith o ad-drefnu'r Comisiwn yn fewnol.

***Y Comisiwn Hawliau Anabledd***

30. Ar 14 Tachwedd 2002, bu'r pwyllgor yn ystyried Adroddiad Blynyddol y Comisiwn Hawliau Anabledd yn unol â Rheol Sefydlog 6.6. Y prif faterion oedd yn codi o'r adroddiad oedd:

- derbyn mwy o adroddiadau am wasanaethau cyngor oddi wrth unigolion;
- mae'r tueddiad i setlo y tu allan i lys barn yn ei gwneud yn anodd sefydlu cyfraith achos;
- pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth i sicrhau y bodlonir gofynion y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd. a
- pwysigrwydd gweithgareddau i godi proffil, a gwaith hyfforddiant a chynyddu ymwybyddiaeth.

***Y Comisiwn Cyfle Cyfartal***

31. Ar 12 Rhagfyr 2002, bu'r Pwyllgor yn ystyried Adroddiad Blynyddol y Comisiwn Cyfle Cyfartal yn unol â Rheol Sefydlog 6.6. Y prif themâu oedd:

- cyflog cyfartal;
- trefniadau gweithio hyblyg;
- cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith i ddynion a menywod;
- hyrwyddo cydraddoldeb fel arfer busnes dda, a fydd yn arwain at sefydliadau iachach; a
- chynyddu nifer y menywod sydd mewn bywyd cyhoeddus.

## Y PWYLLGOR CYFLE CYFARTAL YN YR AIL GYNULLIAD

32. Etholwyd Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal newydd ar 3 Mehefin 2003. Ceir rhestr o aelodau'r pwyllgor yn Atodiad A2. Cynhwysir manylion ynghylch gweithgareddau'r Pwyllgor newydd yn yr adroddiad blynyddol ar gyfer 2003 - 2004, ond mae'r paragraffau canlynol yn amlinellu'r gwaith sydd wedi'i wneud mor belled ynghyd â blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol.

### Materion allweddol a ystyriwyd gan Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal ers mis Mai 2003

***Yr adolygiad o'r gwasanaethau a ddarperir i Sipsiwn a Chrwydriaid***

33. Cynhaliodd Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal blaenorol Adolygiad o'r Ddarpariaeth o Wasanaethau ar gyfer Sipsiwn a Chrwydriaid. Rhoddwyd yr adroddiad gerbron y Cynulliad cyn yr etholiad a chyhoeddwyd y copi caled ddiwedd mis Mehefin. Fel Pwyllgor newydd, cawsom drafodaeth gyflwyno ddefnyddiol iawn ynghylch yr adroddiad ynghyd â chrynodeb o adborth, a oedd yn gadarnhaol i raddau helaeth, ynghylch yr adroddiad fel papur i'w nodi yn ein cyfarfod ym mis Hydref. Edrychwn ymlaen at dderbyn ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru yn y dyfodol agos.

***Prif ffrydio Cydraddoldeb***

34. Pennodd y Pwyllgor asesiad o ba mor llwyddiannus y mae'r Cynulliad yn prif ffrydio cydraddoldeb fel pwnc ei adolygiad polisi cyntaf. Buom yn ymgynghori ynghylch y mater hwn yr haf hwn ac rydym wedi dechrau cyfres o sesiynau cyflwyno tystiolaeth.

***Blwyddyn Ewropeaidd Pobl Anabl a Chyngres Ryngwladol Pobl Ifanc Anabl***

35. 2003 yw Blwyddyn Ewropeaidd Pobl Anabl a rhoddodd Rhian Davies, Cadeirydd Grŵp Hwyluso Cymru ar gyfer Blwyddyn Ewropeaidd Pobl Anabl 2003, gyflwyniad i'r Pwyllgor yn amlinellu'r cynlluniau ar gyfer dathlu'r flwyddyn yng Nghymru. Bu i ni gymryd nifer o gamau dilynol yn ogystal: ysgrifennu at Weinidogion yn eu hannog i gyfarfod â'r Grŵp Hwyluso; gofyn i'r Trefnydd drefnu cyfres o ddadleuon mewn Cyfarfodydd Llawn er mwyn mynd i'r afael â materion sy'n gysylltiedig â'r Flwyddyn a dosbarthu manylion ynghylch digwyddiadau y bwriedir eu cynnal ledled Cymru i'r holl Aelodau.

36. Clywsom yn ogystal oddi wrth rai o'r bobl ifanc a oedd yn gysylltiedig â threfnu'r Gyngres Ryngwladol Gyntaf ar gyfer Pobl Ifanc Anabl, a gynhaliwyd yn Abertawe yr Haf hwn. Rydym yn bwriadu mynd i'r afael â'r materion yr oedd y bobl ifanc wedi'u pennu fel blaenoriaethau ar gyfer gwella eu bywydau mewn adolygiad polisi yn y gwanwyn.

***Ymgynghoriad Llywodraeth y DU ynghylch Partneriaeth Sifil - A framework for the legal recognition of same-sex couples***

37. Cynhaliodd Llywodraeth y DU ymgynghoriad ynghylch cydnabyddiaeth gyfreithiol ar gyfer cyplau o'r un rhyw yn gynharach eleni. Trafodwyd y cynigion ac ymatebwyd yn ffurfiol i'r ymgynghoriad. Byddwn yn dilyn hynt y ddeddfwriaeth yn y maes hwn.

***Ymgynghoriad Llywodraeth y DU 'Equality and Diversity: Age Matters'***
38. Bu i Lywodraeth y DU hefyd ymgynghori ynghylch cynigion i roi Cyfarwyddebau Cyflogaeth Ewropeaidd ar waith. Bu i ni wahodd y cynrychiolwyr o'r Adran Masnach a Diwydiant ac Age Concern Wales i gyfrannu at ein hystyriaeth o'r mater hwn ac i ategu ein hymateb i'r ymgynghoriad.

***Cydbwysedd rhwng y rhywiau mewn awdurdodau lleol ac ystyried adroddiad blynyddol Uned Gydraddoldeb Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC)***
39. Cynhaliodd y Pwyllgor drafodaeth ddefnyddiol iawn â chynrychiolwyr o CLILC ynghylch adroddiad blynyddol ei Huned Gydraddoldeb a chynrychiolaeth y rhywiau mewn awdurdodau lleol. Fel rhan o'n hadolygiad Prif ffrydio Cydraddoldeb rydym yn edrych ymlaen at ystyried pa wersi y gellir eu dysgu ar gyfer y sector cyhoeddus ehangach o roi'r Safon Cydraddoldeb Llywodraeth Leol ar waith.

***Cynllun Cydraddoldeb Hiliol Cynulliad Cenedlaethol Cymru***
40. Roeddem yn barod iawn i ystyried Cynllun Cydraddoldeb Hiliol diwygiedig y Cynulliad yn ein cyfarfod cyntaf yn nhymor yr Hydref. Bydd y ddogfen hon, sy'n cynnwys manylion ynghylch y camau i'w cymryd ar draws y Cynulliad, yn bwysig ar gyfer rhoi'r agenda gydraddoldeb ar waith. Edrychwn ymlaen at weld canlyniadau'r ymgynghoriad.

## BLAENORIAETHAU AR GYFER Y DYFODOL

41. Mae blaenraglen waith y Pwyllgor yn Atodiad A5, a bydd ei blaenoriaethau allweddol yn cynnwys:

- prif ffrydio'r adolygiad polisi cydraddoldeb;
- gwaith dilynol ar yr Adolygiad o'r Gwasanaethau a Ddarperir i Sipsiwn a Chrwydriaid;
- galluogi pobl ifanc anabl i fanteisio ar y gwasanaethau sydd ar gael iddynt;
- amrywiaeth mewn penodiadau cyhoeddus; a
- materion yn ymwneud â cheiswyr lloches.

**Atodiad A1**

## CYLCH GORCHWYL

## DARNAU O DDEDDF LLYWODRAETH LEOL 1998

Adran 48

(1) Bydd y Cynulliad yn gwneud trefniadau priodol gyda’r bwriad o sicrhau fod ei fusnes yn cael ei reoli gyda sylw dyladwy i’r egwyddor y dylid rhoi cyfle cyfartal i bawb.

Adran 120

(1) Bydd y Cynulliad yn gwneud trefniadau priodol gyda’r bwriad o sicrhau fod ei swyddogaethau’n cael eu cyflawni gyda sylw dyladwy i’r egwyddor y dylid rhoi cyfle cyfartal i bawb.

(2) Ar ôl pob blwyddyn ariannol bydd y Cynulliad yn cyhoeddi adroddiad sy’n cynnwys:
a) Datganiad o’r trefniadau a wnaed yn unol ag is-adran (1) a oedd mewn grym yn ystod y flwyddyn ariannol honno; a
b) Datganiad ynghylch pa mor effeithiol y bu’r trefniadau hynny mewn hybu cyfle cyfartal.

## RHEOL SEFYDLOG 14 – Y PWYLLGOR CYFLE CYFARTAL

### Teitl a Chylch Gwaith

14.1. Bydd Pwyllgor Cyfle Cyfartal, a fydd yn archwilio trefniadau’r Cynulliad ar gyfer hybu, wrth arfer ei swyddogaethau a chynnal ei fusnes, egwyddor cyfle cyfartal ar gyfer pawb. Bydd y Pwyllgor hefyd yn rhoi sylw arbennig i’r angen i’r Cynulliad osgoi gwahaniaethu yn erbyn unrhyw berson ar sail hil, rhyw neu anabledd.

14.2. Bydd y Pwyllgor yn cyflwyno adroddiad blynyddol i’r Cynulliad ar y trefniadau hynny a’u heffeithiolrwydd. Bydd hefyd yn adolygu’r Adroddiadau Blynyddol a gyflwynir i’r Cynulliad gan gyrff cyhoeddus sy’n ymwneud â hybu cyfle cyfartal ac yn adrodd ei gasgliadau am yr adroddiadau hynny i’r Cynulliad.

### Yr Aelodau

14.3 Caiff Aelodau'r Pwyllgor eu hethol gan ystyried pa mor ddymunol y byddai i bob pwyllgor pwnc gael ei gynrychioli ar y Pwyllgor ac er mwyn sicrhau, cyn belled ag y bo'n ymarferol, yr adlewyrchir cydbwysedd y grwpiau gwleidyddol yn y Cynulliad yn ei aelodaeth. Bydd y Cynulliad yn ethol un o'i aelodau ar y Pwyllgor i gadeirio'r Pwyllgor, ond ni chaiff ei gadeirio gan Weinidog. Gall Aelodau nad ydynt yn Aelodau o’r Pwyllgor fynychu ei gyfarfodydd pan fyddant yn agored i’r cyhoedd. Cyn unrhyw gyfarfod, caiff y

cyfryw Aelodau sydd â buddiannau etholaethol neu ranbarthol penodol i fynd ar eu trywydd mewn perthynas â gwaith y Pwyllgor geisio caniatâd y cadeirydd i wneud sylwadau i'r Pwyllgor yn y cyfarfod hwnnw; ond ni chânt bleidleisio.  Hefyd, caiff Aelodau ysgrifennu at y cadeirydd a gofyn bod eu sylwadau ar unrhyw agwedd ar waith y Cynulliad yn cael eu cyflwyno i'w hystyried gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod nesaf; a bydd y cadeirydd yn trefnu i'r cyfryw gyflwyno ddigwydd.

14.4 Heb leihau effaith paragraff 8.14, bydd y Pwyllgor, o bryd i'w gilydd, yn penodi cynghorwyr yn ôl y galw fel y gall sylwadau grwpiau lleiafrifol neu grwpiau pobl dan anfantais gael eu cyflwyno iddo.

**Adroddiadau**

14.5 Yn ogystal â chyflwyno ei adroddiad blynyddol gall y Pwyllgor gyflwyno adroddiadau eraill i'r Cynulliad o bryd i'w gilydd.

**Atodiad A2**

**AELODAU'R PWYLLGOR CYFLE CYFARTAL YN 2002 - 2003**

| ENW | DYDDIADAU | ETHOLAETH | PLAID |
|---|---|---|---|
| Ann Jones (Cadeirydd Rhag 02 hyd Maw 03) | 9 Tach 00 hyd 20 Maw 03 | Dyffryn Clwyd | Llafur |
| Lorraine Barrett | 5 Ebr 00 hyd 20 Maw 03 | De Caerdydd a Phenarth | Llafur |
| Eleanor Burnham | 8 Mai 01 hyd 20 Maw 03 | Gogledd Cymru | Democrat Rhyddfrydol |
| Edwina Hart (Cadeirydd Maw 00 - Meh 02) | 23 Meh 99 hyd 20 Meh 02 | Gwyr | Llafur |
| Carwyn Jones (Cadeirydd Meh 02 hyd Hyd 02) | 20 Meh 02 hyd 20 Maw 03 | Pen-y-bont ar Ogwr | Llafur |
| Helen Mary Jones | 23 Meh 99 hyd 20 Maw 03 | Llanelli | Plaid Cymru |
| Huw Lewis | 27 Tach 01 hyd 20 Maw 03 | Merthyr Tudful a Rhymni | Llafur |
| Val Lloyd | 27 Tach 01 hyd 20 Maw 03 | Dwyrain Abertawe | Llafur |
| David Melding | 23 Meh 99 hyd 20 Maw 03 | Canol De Cymru | Y Ceidwadwyr |
| Peter Rogers | 20 Tach 01 hyd 20 Maw 03 | Gogledd Cymru | Y Ceidwadwyr |
| Janet Ryder | 23 Meh 99 hyd 20 Maw 03 | Gogledd Cymru | Plaid Cymru |
| Owen John Thomas | 9 Tach 00 hyd 20 Maw 03 | Canol De Cymru | Plaid Cymru |

**Sylwch:**

- (Roedd David Melding yn Gadeirydd dros dro ar gyfer y cyfarfod ar 14 Tachwedd 2002)

**AELODAU'R PWYLLGOR CYFLE CYFARTAL YN YR AIL GYNULLIAD**

| ENW | PLAID | ETHOLAETH |
|---|---|---|
| Gwenda Thomas (Cadeirydd) | Llafur | Castell-nedd |
| Lorraine Barrett | Llafur | De Caerdydd a Phenarth |
| David Davies | Y Ceidwadwyr | Sir Fynwy |
| Lisa Francis | Y Ceidwadwyr | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| John Griffiths | Llafur | Dwyrain Casnewydd |
| Helen Mary Jones | Plaid Cymru | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Huw Lewis | Llafur | Merthyr Tudful a Rhymni |
| Jenny Randerson | Y Democratiaid Rhyddfrydol | Canol Caerdydd |
| Catherine Thomas | Llafur | Llanelli |
| Leanne Wood | Plaid Cymru | Canol De Cymru |

**Sylwch:**
- Etholwyd y Pwyllgor ar 3 Mehefin 2003

**Atodiad A3**

**Crynodeb o'r Agendâu**

Ceir y papurau sy'n gysylltiedig â'r Pwyllgor yn:
http://www.cymru.gov.uk/keypubassemequalcomm/index.htm.

**22 Mai 2002**

- Adroddiad y Cadeirydd
- Chwarae Teg
- Cynllun Cydraddoldeb Hiliol
- Strategaeth Recriwtio a Lleoli
- Adolygiad Sipsiwn Crwydrol
- Adroddiad Blynyddol Drafft y Pwyllgor Cyfle Cyfartal

**26 Mehefin 2002**

- Adroddiad y Cadeirydd
- Cynllun Gweithredu Adroddiad McKenzie
- An Absolute Duty
- Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Cyfle Cyfartal
- Trefniadau Gofal Plant yn y Cynulliad Cenedlaethol
- Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus
- Fforwm Lesbiaid, Hoywon a Deurywiaid
- Hawliau Dynol

**17 Hydref 2002**

- Adroddiad y Cadeirydd
- Cyflwyniad gan y Fforwm Lesbiaid, Hoywon a Deurywiaid
- Cyflwyniad gan Diabetes UK
- Adroddiad Blynyddol y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol
- Yr Adolygiad Sipsiwn Crwydrol - Iechyd - Prosiect Iechyd Crwydriaid Bryste
- Yr Adolygiad Sipsiwn Crwydrol - Iechyd - Dr Sylvaine Carr-Hill
- Yr Adolygiad Sipsiwn Crwydrol - Iechyd - Angela Roberts
- Cofnodion y cyfarfod blaenorol
- Papur i'w nodi - Gwybodaeth gefndir ynghylch y sefyllfa gyfreithiol o ran Sipsiwn Crwydrol, wedi'i baratoi gan Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol

**14 Tachwedd 2002**

- Adroddiad y Gweinidog
- Y sefyllfa ddiweddaraf o ran gweithredu adroddiad McKenzie a'r papur ar recriwtio uwch-was sifil yn bennaeth ar yr Uned Polisi Cydraddoldeb
- Mynediad at orsafoedd pleidleisio
- Cyflwyniad gan y Swyddfa Gartref ar ddefnyddio tocynnau i gael budd-daliadau
- Cynllun Cydraddoldeb Hiliol Cynulliad Cenedlaethol Cymru
- Ystyried Adroddiad Blynyddol y Comisiwn Hawliau Anabledd

- Yr Adolygiad Sipsiwn Crwydrol - Addysg - Ysgol Monkton, prosiect Canolfan Ddysgu Priory
- Yr Adolygiad Sipsiwn Crwydrol - Addysg - Gwasanaeth Addysg Wrecsam i Deithwyr
- Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol

**12 Rhagfyr 2002**
- Adroddiad y Gweinidog
- Gweithredu'r Adroddiad 'Codi Pob Llais'
- Adolygiad o'r ymarfer recriwtio allanol peilot.
- Adroddiad ar aelodau Cymraeg ar gyrff y GIG
- Cyflwyniad gan Glymblaid Genedlaethol Menywod Cymru
- Ystyried adroddiad blynyddol y Comisiwn Cyfle Cyfartal
- Adolygiad Sipsiwn Crwydrol - Llety - cyflwyniadau oddi wrth Bill Crumpton, rheolwr safleoedd Cyngor Sir Caerdydd; Ian Cairns, Swyddog Cysylltiadau Sipsiwn Cyngor Sir Gwlad yr Haf a Frank Milne, Rheolwr Gwasanaethau Crwydriaid Cyngor Sir Caerfyrddin
- Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol
- Ystyried adroddiad cynnydd yr Adolygiad Sipsiwn Crwydrol
- Papurau i'w nodi - Nodyn ar yr hyfforddiant sydd ar gael i staff CADW; Nodyn ar gydbwysedd rhwng y rhywiau ar Grwpiau Gorchwyl a Gorffen a llythyr oddi wrth Swyddfa'r Comisiynydd Gwasanaethau Mewnfudo

**16 Ionawr 2003**
- Adroddiad y Gweinidog
- Papur ar weithredu'r argymhellion a geir yn 'An Absolute Duty'
- Y newyddion diweddaraf ynghylch recriwtio i'r Cynulliad
- Yr Adolygiad Sipsiwn Crwydrol - Adrodd yn ôl ar ymweliadau i safleoedd
- Yr Adolygiad Sipsiwn Crwydrol - Cyflwyniad gan Sipsiwn Crwydrol ifanc
- Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol
- Papur i'w nodi - Llythyr oddi wrth y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol ynghylch nifer yr awdurdodau lleol sy'n manteisio ar gyngor ar Deddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio)
- Cyflwyniad gan bobl ifanc ar yr adroddiad 'Dweud eich Dweud'

**13 Chwefror 2003**
- Adroddiad y Gweinidog
- Cyflwyniad gan Gymdeithas Pobl Fyddar Prydain ar y defnydd a wneir o Iaith Arwyddion Prydain
- Un Corff dros Gydraddoldeb
- Cynlluniau cydraddoldeb hiliol cyrff cyhoeddus yng Nghymru
- Yr adolygiad o Sipsiwn Crwydrol: papur ar faterion sy'n ymwneud â llety
- Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol
- Papurau i'w nodi - ymateb oddi wrth y Swyddfa Gartref ynghylch siopa am fudd-daliadau, a llythyr ynghylch gorsafoedd pleidleisio oddi wrth y Gweinidog dros Gyllid
- Sesiwn breifat - yr Adolygiad Sipsiwn Crwydrol - adroddiad ar gynnydd

**20 Mawrth 2003**

- Adroddiad y Gweinidog
- Ymchwil gan Chwarae Teg
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru - Cydbwysedd rhwng y ddau ryw mewn awdurdodau lleol a Diwrnod Rhyngwladol y Menywod
- Hynt y gwaith o wella amrywiaeth mewn penodiadau cyhoeddus
- Cyflog Cyfartal - adroddiad ar yr ymgyrch a'r strategaeth at y dyfodol
- Dilyniant i gyflwyniad gan y Fforwm Lesbiaid, Hoywon a Deurywiaid (LGB)
- Ymgynghoriad y Comisiwn Etholiadol ar fynediad cyfartal i weithdrefnau etholiadol
- Crynodeb o weithgareddau'r Pwyllgor a gwaith at y dyfodol
- Cofnodion y cyfarfod diwethaf a phapurau i'w nodi
- Cyflwyniad am y Gynhadledd Rights into Action
- Sesiwn breifat - yr Adolygiad Sipsiwn Crwydrol - adroddiad ar gynnydd

**Atodiad A4**

## CRYNODEB O WEITHGAREDDAU ALLWEDDOL Y PWYLLGOR CYFLE CYFARTAL YN YSTOD Y SESIWN CYNTAF

Ceir crynodeb o weithgareddau'r Pwyllgor dros y pedair blynedd diwethaf yn y tabl canlynol:

| MAES | GWEITHGAREDD |
|---|---|
| Cyffredinol | - Pan y'i sefydlwyd yn y lle cyntaf, comisiynodd y Pwyllgor asesiad o'r graddau yr oedd is-adrannau polisi'r Cynulliad yn ystyried materion cydraddoldeb. Mae pob un o adroddiadau blynyddol y Pwyllgor wedi darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am y pwnc hwn.<br>- Gwahoddodd y Pwyllgor y cyrff statudol dros gydraddoldeb - y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol, y Comisiwn Hawliau Anabledd a'r Comisiwn Cyfle Cyfartal (ac yn ddiweddarach Fforwm LGB Cymru) i fod yn wahoddedigion sefydlog yn y Pwyllgor. |
| Mynediad i adeiladau hanesyddol | - Ym mis Tachwedd 2001, bu'r Pwyllgor yn ystyried canllawiau drafft CADW ar fynediad i adeiladau hanesyddol. |
| Mynediad i orsafoedd pleidleisio | - Ym misoedd Ebrill a Thachwedd 2002, bu'r Pwyllgor yn ystyried mater mynediad i orsafoedd pleidleisio, gan dderbyn cyflwyniadau gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, SCOPE, y Comisiwn Etholiadol a'r Comisiwn Hawliau Anabledd.<br>- Mae'r Pwyllgor yn ymateb yn ffurfiol i ymgynghoriad y Comisiwn Etholiadol ar fynediad cyfartal i weithdrefnau etholiadol. |
| An Absolute Duty | - Ym mis Ionawr 2003, trafododd y Pwyllgor gynllun ar gyfer gweithredu'r argymhellion a geir yn y ddogfen "An Absolute Duty".<br>- Ym mis Gorffennaf 2002, trafododd y Pwyllgor yr adroddiad "An Absolute Duty". |
| Adroddiadau blynyddol y Comisiynau statudol | - Mae'r Pwyllgor wedi ystyried adroddiadau blynyddol y tri Chomisiwn statudol dros gydraddoldeb. |

| MAES | GWEITHGAREDD |
|---|---|
| Materion sy'n ymwneud â lloches | - Ym misoedd Gorffennaf a Thachwedd 2001, derbyniodd y Pwyllgor dystiolaeth ynghylch y modd y caiff ceiswyr lloches eu trin yng Nghymru.<br>- Ysgrifennodd y Pwyllgor at y Swyddfa Gartref yn amlinellu ei bryderon ynghylch y modd y câi ceiswyr lloches eu trin, ac roedd yn falch o glywed bod yr arfer o gartrefu ceiswyr lloches yng ngharchar Caerdydd wedi dod i ben. |
| Cyflog Cyfartal | - Yn 2001, ystyriodd y Pwyllgor adroddiad y Comisiwn Cyfle Cyfartal, "Cyflog Teg"<br>- Sefydlodd y Pwyllgor grwp cyfeirio anffurfiol, gan gynnwys cynrychiolwyr y Comisiwn Cyfle Cyfartal a Chyngres yr Undebau Llafur, er mwyn cynnal ymgyrch cyflog cyfartal. Mae'r grwp cyfeirio wedi cwrdd yn rheolaidd, ac mae Aelodau wedi cymryd rôl weithredol yn llywio cyfeiriad yr ymgyrch ac yn mynychu digwyddiadau. |
| Codi ymwybyddiaeth o gydraddoldeb | - Ystyriodd y Pwyllgor raglen arfaethedig y Cynulliad o hyfforddiant ymwybyddiaeth cydraddoldeb i staff, a chymeradwyodd hyfforddiant ar gyfer yr Aelodau.<br>- Anogodd y Pwyllgor bob plaid i sicrhau bod unrhyw aelod sy'n cymryd rhan ar banel dethol wedi derbyn hyfforddiant cydraddoldeb. |
| Materion cydraddoldeb ym maes llywodraeth leol | - Mae'r Pwyllgor wedi cynnal ystod o drafodaethau gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Syniad ar faterion cydraddoldeb sy'n ymwneud â llywodraeth leol - gan gynnwys mynediad at orsafoedd pleidleisio, Gwerth Gorau ac Archwiliadau Cydraddoldeb o lywodraeth leol. |
| Materion cydraddoldeb yn y GIG | - Ym mis Mehefin 2001, ystyriodd y Pwyllgor gydraddoldeb mewn penodiadau yn y GIG.<br>- Ym mis Gorffennaf 2000, ystyriodd y Pwyllgor Strategaeth Adnoddau Dynol GIG Cymru. |

| MAES | GWEITHGAREDD |
|---|---|
| Cyflwyniadau cyffredinol gan sefydliadau sydd â diddordeb mewn materion sy'n gysylltiedig â chydraddoldeb | Mae'r Pwyllgor wedi derbyn cyflwyniadau gan ystod o sefydliadau eraill, ar wahân i'r materion penodol eraill sydd wedi'u rhestru yma, gan gynnwys:<br>- Clymblaid Genedlaethol Menywod Cymru - ar benodiadau cyhoeddus ac ymarfer y Swyddfa Gabinet, 'Listening to Women'.<br>- Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain - ar gydnabod Iaith Arwyddion Prydain<br>- Chwarae Teg<br>- Trefnwyr Cyngres Amrywiaeth Diwylliannol y Byd<br>- Diabetes UK - ar wella mynediad at wasanaethau gofal iechyd ar gyfer cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig<br>- Cyngor Pobl Ddall Cymru a SENSE Cymru - ar arolwg o gymorth gan awdurdodau lleol ar gyfer pobl sy'n ddall a byddar.<br>- Cyngor Cymru i'r Deillion - ar y prosiect Young View<br>- Rhwydwaith Cydraddoldeb Hiliol Gogledd Cymru - ar eu gwaith |
| Y Ddeddf Hawliau Dynol | Mae'r Pwyllgor wedi ystyried goblygiadau'r Ddeddf Hawliau Dynol ac, ar ddau achlysur, wedi penderfynu peidio â chynnwys hawliau dynol yn ei gylch gwaith. |
| Rhoi 'Codi Pob Llais' a pholisi recriwtio'r Cynulliad ar waith | - Ym mis Ionawr 2002, ac yn rheolaidd ers hynny, mae'r Pwyllgor wedi ystyried y diweddaraf ynghylch rhoi 'Codi Pob Llais' ar waith.<br>- Mae'r Pwyllgor hefyd wedi ystyried materion sy'n ymwneud â pholisi recriwtio'r Cynulliad, a hynny mewn cryn ddyfnder. |
| Adroddiad MacPherson ar Lofruddiaeth Stephen Lawrence | Cyflawnodd y Pwyllgor gryn dipyn o waith ar weithredu'r argymhellion addysg a geir yn adroddiad MacPherson.  Ystyriodd y Pwyllgor gyflwyniadau gan ystod eang o sefydliadau, gan gynnwys aelodau, staff ACCA, Estyn, y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru, Race Equality First, Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan a Heddlu De Cymru. |
| Caffael | Mae'r Pwyllgor wedi ystyried sut y gall y Cynulliad ddefnyddio ei bwer fel prynwr mawr i gaffael nwyddau gan gwmnïau sydd wedi ymrwymo i egwyddorion cyfle cyfartal, gan gynnwys datblygu Cod Ymarfer Gwirfoddol. |

| MAES | GWEITHGAREDD |
|---|---|
| Penodiadau cyhoeddus | - Derbyniodd y Pwyllgor gyflwyniad ym mis Hydref 2000 a mis Mehefin 2002 oddi wrth y Fonesig Rennie Fritchie, y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus.<br>- Hefyd, ystyriodd y Pwyllgor y cynllun gweithredu, 'Mainstreaming Equality in Public Appointments'.<br>- Ym mis Ionawr 2002, bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad drafft yr adolygiad o dâl a threuliau y rheini sydd wedi'u penodi'n gyhoeddus.<br>- Ym mis Mawrth 2002, bu'r Pwyllgor yn ystyried y Cod Ymarfer ar Benodiadau Cyhoeddus. |
| Cyfarwyddebau ar Hil a Chyflogaeth | - Ym mis Ionawr 2002, derbyniodd y Pwyllgor gyflwyniad ar y Cyfarwyddebau gan yr Adran Diwydiant a Masnach.<br>- Ym mis Mawrth 2002, trafododd y Pwyllgor ei safbwynt ar y Cyfarwyddebau.<br>- Yn ei gyfarfod ar 13 Chwefror 2003, bu'r Pwyllgor yn ystyried canlyniadau digwyddiadau a gynhaliwyd i drafod ymgynghoriad Llywodraeth y DU ar un corff dros gydraddoldeb, a chyflwynodd ei ymateb ei hun i'r ymgynghoriad. |
| Y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) | - Bu'r Pwyllgor yn ystyried goblygiadau'r Mesur drafft ym mis Ionawr 2001.<br>- Ym mis Hydref 2001, trafododd y Pwyllgor y modd y byddai'r Ddeddf yn gweithio gyda swyddogion o'r Swyddfa Gartref.<br>- Mae'r Pwyllgor wedi ystyried Cynllun Cydraddoldeb Hiliol y Cynulliad sawl gwaith yn ystod 2002.<br>- Yn ystod 2002 a 2003, mae'r Pwyllgor wedi trafod asesiadau'r Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol o'r graddau y mae cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn cydymffurfio â'r Ddeddf. |
| Yr adolygiad o'r gwasanaethau a ddarperir i Sipsiwn a Chrwydriaid | Mae'r Pwyllgor wedi cynnal adolygiad manwl o'r gwasanaethau a ddarperir ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr, ac mae'r adroddiad ar yr ymchwiliad hwnnw wrthi'n cael ei baratoi.  Mae'r pwyllgor wedi derbyn tystiolaeth mewn amryw o ffyrdd, gan gynnwys:<br>- Cyflwyniadau ysgrifenedig<br>- Cyflwyniadau yn ystod cyfarfodydd y Pwyllgor<br>- Ymweliadau â safleoedd Sipsiwn crwydrol<br>- Arolwg o awdurdodau lleol |
| Tueddfryd rhywiol | - Bu'r Pwyllgor yn ystyried cyflwyniad gan Stonewall ar y cod ymarfer gwirfoddol ar dueddfryd rhywiol.<br>- Gwahoddwyd Fforwm LGB Cymru i fod yn un o wahoddedigion sefydlog y Pwyllgor.<br>- Ym mis Hydref 2002, trafododd y Pwyllgor flaenraglen waith Fforwm LGB Cymru. |

| MAES | GWEITHGAREDD |
|---|---|
| Y Gymraeg | - Ym mis Hydref 2000, bu'r Pwyllgor yn ystyried materion cydraddoldeb sy'n gysylltiedig â'r Gymraeg.<br>- Ym mis Mawrth 2002, trafododd y Pwyllgor adroddiad y Pwyllgor Diwylliant ar y Gymraeg.<br>- Ym mis Rhagfyr 2002, derbyniodd y Pwyllgor gyflwyniad ar y nifer o siaradwyr Cymraeg sydd ar fyrddau cyrff iechyd. |

**Atodiad A5**

## Y PWYLLGOR CYFLE CYFARTAL - BLAENRAGLEN WAITH MEDI 03 - PASG 04

| Pryd? | Maes | Eitem |
|---|---|---|
| **Hydref 03**<br><br>**(Tua 3 chyfarfod)** | Adroddiad blynyddol | • Adroddiad blynyddol, o dan adran 120 o Ddeddf Llywodraeth Cymru, ar waith y Cynulliad i hyrwyddo cyfle cyfartal |
| | Cydraddoldeb hiliol | • Ymgynghori ar Gynllun Cydraddoldeb Hiliol y Cynulliad<br>• Adroddiad gan Y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol ar brofiadau cyrff cyhoeddus yng Nghymru hyd yma wrth weithredu'r Ddeddf Diwygio Cysylltiadau Hiliol |
| | Sipsiwn a Chrwydriaid | • Ystyried ymateb y Cabinet i'r adroddiad<br>• Gwaith dilynol ar yr adolygiad o'r gwasanaeth a ddarperir ar gyfer sipsiwn a theithwyr |
| | Recriwtio | Ystyried strategaeth recriwtio arfaethedig y Cynulliad |
| | Penodiadau cyhoeddus | • Adroddiad Blynyddol y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus<br>• Ystadegau ar amrywiaeth y sawl a benodir i swyddi cyhoeddus, ac, os ydynt ar gael, ystadegau ar ymgeiswyr ac aseswyr penodiadau cyhoeddus |
| | Cydraddoldeb rhwng y rhywiau | Cyflwyniad gan Y Comisiwn Cyfle Cyfartal ar gyllidebau i hyrwyddo cydraddoldeb rhwng y rhywiau |
| | Prif ffrydio adolygiad polisi | • Cyflwyniad gan Yr Athro Teresa Rees ar y profiadau a gafwyd mewn gwledydd eraill ac ar yr adroddiad 'An Absolute Duty'<br>• Adroddiad Pwyllgor Cydraddoldeb Yr Alban ar brif ffrydio cydraddoldeb<br>• Prif ffrydio datblygu cynaliadwy a'r gwersi i'w dysgu<br>• Sesiynau casglu tystiolaeth gyda sefydliadau allweddol yn y maes cydraddoldeb<br>• Arferion da wrth ymgynghori a'r gwersi i'w dysgu o'r ymgynghoriad ar adeilad newydd y Cynulliad |
| | Cronfeydd Strwythurol | Dangosyddion cydraddoldeb yn yr adolygiad canol tymor o'r cronfeydd strwythurol – craffu ar y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth |

| Pryd? | Maes | Eitem |
|---|---|---|
| | Blwyddyn Ryngwladol Pobl Anabl | • Adborth gan bobl ifanc ar y Gyngres Rights into Action<br>• Adborth gan Weinidogion a Phwyllgorau eraill ar ganlyniadau'r Gyngres a'r llyfryn "Young disabled people tell us about the best and worst in Wales" |
| | Cyrff cydraddoldeb | • Canlyniadau ymgynghoriad Llywodraeth y DU ar un corff cydraddoldeb *(nid oedd Uned Menywod a Chydraddoldeb yr Adran Masnach a Diwydiant yn gallu dweud pryd fyddai canlyniadau'r ymgynghoriad yn debygol o gael eu cyhoeddi)*<br>• Ystyried adroddiadau blynyddol y comisiynau statudol |
| | Ceiswyr Lloches | • Ystyried effaith y ddeddfwriaeth bresennol; mesurau i atal ceiswyr lloches rhag mynd yn amddifad; yr anawsterau wrth geisio cael gwaith; a phryderon am yr hiliaeth a'r rhagfarn gynyddol. |
| | Mynediad at brosesau etholiadol | • Ystyried adroddiad ar fynediad i orsafoedd pleidleisio a'r broses etholiadol ar gyfer etholiadau'r Cynulliad yn 2003 *(i'w gyhoeddi Tachwedd 03)*<br>• Ystyried adroddiad y Comisiwn Etholiadol ar fynediad cyfartal i ddemocratiaeth - adroddiad ac argymhellion *(cyhoeddwyd Mehefin 03)* |
| **Gwanwyn 04**<br><br>**(Tua 3 chyfarfod)** | Cymorth i Gyfathrebu | • Gwaith dilynol ar ôl cyflwyniad Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain ar Iaith Arwyddion Prydain - adroddiad gan y Gweinidog ar weithredu yn y Cynulliad<br>• Ystyried ffyrdd eraill i helpu pobl i gyfathrebu e.e. cymhorthion clyw a 'stagetext' |
| | Adolygiad o'r polisi ar brif ffrydio | • Sesiynau casglu tystiolaeth gyda sefydliadau allweddol yn y maes cydraddoldeb<br>• Casgliadau<br>• Cytuno ar yr adroddiad |
| | Sipsiwn a Chrwydriaid | • Gwaith dilynol ar yr adolygiad o'r gwasanaethau a ddarperir i sipsiwn a chrwydriaid |
| | Cydraddoldeb rhwng y rhywiau | • Cyflwyniad gan Chwarae Teg<br>• Adolygu gwaith Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar y cydbwysedd rhwng y rhywiau mewn awdurdodau lleol bob 6 mis |
| | Recriwtio | • Newyddion blynyddol am lwyddiant rhaglen y Cynulliad i recriwtio pobl o gymunedau ethnig lleiafrifol<br>• Rhoi'r strategaeth recriwtio ar waith |

| Pryd? | Maes | Eitem |
|---|---|---|
| | Ceiswyr Lloches | • Ystyried effaith y ddeddfwriaeth bresennol; y mesurau i atal ceiswyr lloches rhag mynd yn amddifad; yr anawsterau wrth geisio cael gwaith; a phryderon am yr hiliaeth a'r rhagfarn gynyddol. |
| | Rights into Action - adolygiad polisi sy'n gysylltiedig â phobl ifanc anabl | Cytuno ar gylch gwaith yr adolygiad polisi a'r llythyr ymgynghori. |

**Materion eraill i'w hystyried**

- Materion cydraddoldeb yn ymwneud â phlant sy'n derbyn gofal
- Gwahaniaethu ar sail iaith - i'w ystyried ym mhob maes gwaith
- Monitro adolygiad Y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes o Anghenion Addysgol Arbennig
- Monitro adolygiad Y Pwyllgor Diwylliant o ddiwylliant pobl ifanc a'r celfyddydau
- Monitro gwaith y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar rai cyflyrau iechyd e.e. epilepsi, y gwynegon ac iechyd meddwl

**ATODIAD B**

## ADRODDIAD Y CLERC AR HYRWYDDO CYFLE CYFARTAL WRTH REOLI BUSNES

### 1. Rhagarweiniad

1.1 Amlinella'r adroddiad hwn y gwaith y mae Swyddfa'r Llywydd wedi'i wneud er mwyn hyrwyddo cyfle cyfartal wrth reoli ei busnes (adran 48 o Ddeddf Llywodraeth Cymru). Mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu'r cyfnod o Ebrill 2002 hyd Mawrth 2003.

1.2 Mae Cynllun Corfforaethol Swyddfa'r Llywydd, a'r Datganiad Corfforaethol sy'n rhan ohono, yn pennu'r cyd-destun ar gyfer ein gwaith. Ein nod yw darparu'r gwasanaeth gorau posibl i bob Aelod o fewn yr adnoddau sydd ar gael, yn seiliedig ar ddisgwyliadau Aelodau ac ar arferion gorau mewn meysydd eraill. Ein nod yw gwella a datblygu'r gwasanaethau a ddarparwn yn barhaus.

1.3 Mae Nodau ac Amcanion Swyddfa'r Llywydd yn amlinellu sut byddwn yn cyflawni ein targedau a chyfeirir yn benodol at:

- Byddwn yn cynyddu dealltwriaeth, gwybodaeth ac ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r Cynulliad ledled Cymru, ac yn anelu at sicrhau bod y Cynulliad ar gael i bawb.
- Byddwn yn darparu gwasanaethau dwyieithog ardderchog ac yn cynorthwyo Aelodau a staff; yn rhoi datganiad polisi dwyieithog ar gyfer Swyddfa'r Llywydd ar waith, ac yn mynd ati i gynorthwyo'r Cynulliad i gyflawni ei ddyletswydd statudol o dan adran 47 o Ddeddf Llywodraeth Cymru.
- Byddwn yn dangos ymrwymiad i arferion gorau er mwyn annog amrywiaeth o blith staff Swyddfa'r Llywydd ac er mwyn darparu gwasanaethau, yn unol ag egwyddor cyfle cyfartal i bawb o dan adran 48 o Ddeddf Llywodraeth Cymru a rhwymedigaethau statudol eraill.

1.4 Yn sgîl datblygu'r Cynllun Cydraddoldeb Hiliol cafwyd cyfle i edrych yn fanwl ar y gwasanaethau a ddarperir gan Swyddfa'r Llywydd ac ystyried pa mor effeithiol yr oedd materion cydraddoldeb yn cael eu hystyried. Rydym yn ymrwymedig i gyfres o gamau gweithredu i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol a byddwn yn rhoi'r gwersi a ddysgwyd ar waith wrth hyrwyddo agweddau eraill ar gydraddoldeb.

1.5 Fel Clerc y Cynulliad rwyf yn cymryd fy nghyfrifoldeb personol i sicrhau bod cyfle cyfartal i bawb yn y Cynulliad, boed fel ymwelwyr, cyfranogwyr mewn trafodion, ymgeiswyr am swyddi neu staff presennol o ddifrif.

### 2. Mynediad at Fusnes y Cynulliad

#### *2.1 Adolygiad o 2002/03*

2.1.1 Cyhoeddir papurau sy'n gysylltiedig â chyfarfodydd llawn a chyfarfodydd Pwyllgorau ar wefan y Cynulliad yn y Gymraeg a'r Saesneg. Darperir copïau papur o'r agendâu dyddiol i aelodau o'r cyhoedd yn y Dderbynfa/Desg Wybodaeth yn y Neuadd. Rhoddir rhestr o'r pleidleisiau dyddiol ar yr hysbysfwrdd. Mae Cofnod y Trafodion yn parhau i gael ei gyhoeddi yn y ddwy iaith ac rydym yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaethau ardderchog o'r radd flaenaf yn y Gymraeg a'r Saesneg ac i drin y ddwy iaith yn gyfartal, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol, Deddf yr Iaith Gymraeg a Datganiad Iaith drafft Swyddfa'r Llywydd.

2.1.2 Mae papurau ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg ac ar ffurf Braille yng nghyfarfodydd y Pwyllgorau Rhanbarth.

2.1.3 Darperir gwasanaeth dehongli Iaith Arwyddion Prydain ar gais mewn cyfarfodydd llawn ac mewn cyfarfodydd pwyllgorau'r Cynulliad. Mae'n ofynnol rhoi rhybudd ymlaen llaw gan nad oes gan y Cynulliad ei ddehonglwyr ei hun. Derbyniodd Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal gyflwyniad oddi wrth Gymdeithas Pobl Fyddar Prydain ynghylch cydnabod Iaith Arwyddion Prydain yn gynharach eleni.

2.1.4 Yn ogystal â'r gwasanaethau cyfieithu a ddarperir yn rheolaidd ac y cyfeiriwyd atynt yn adroddiad blynyddol y llynedd, bu i'r Gwasanaeth Cyfieithu barhau i weithio yn ystod 2002-03 ar gronfa ddata o dermau i'w gyhoeddi ar wefan y Cynulliad yn ystod 2003-04. Dyma gyfraniad ychwanegol a fydd yn galluogi'r Cynulliad i reoli ei fusnes yn ddwyieithog.

### *2.2 Nodau ac Amcanion ar gyfer 2003/04*

2.2.1 Bwriedir cyflwyno Gwasanaeth Dehongli Ffôn ar gyfer Llinell Wybodaeth y Cynulliad a Llinell Archebu'r Cynulliad. Bydd y gwasanaeth yn cael ei ddarparu mewn sawl iaith gan gynnwys Somaleg, Wrdw, Arabeg, Pwnjabeg, Mandarin, Hindi, Gwjarati a Bengaleg.

2.2.2 Bwriedir hefyd adolygu'r ddarpariaeth yn y Siambr ar gyfer Aelodau sydd â nam ar eu clyw.

## 3. Cael Gafael ar Wybodaeth

### *3.1 Adolygiad o 2002/03*

3.1.1 Mae Swyddfa'r Llywydd yn gyfrifol am ddarparu gwybodaeth amrywiol iawn am y Cynulliad a'i fusnes.

3.1.2 Mae'r holl ddogfennau gwybodaeth i'r cyhoedd a gyhoeddir gan y Cynulliad yn cael eu harchwilio er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cynhyrchu mewn diwyg sy'n addas i bobl sydd â nam ar eu golwg a'u clyw. Darperir cyhoeddiadau mewn gwahanol ffurfiau. Mae cyhoeddiadau wedi'u hailgynllunio'n ddiweddar er mwyn sefydlu delwedd unffurf sy'n hawdd i'w hadnabod ac sy'n cynnwys logo Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

3.1.3 Mae'r holl gyhoeddiadau gwybodaeth i'r cyhoedd ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg.  Yn ogystal, mae'r daflen gyffredinol,  'Eich Arweiniad Chi i'r Cynulliad', hefyd ar gael mewn nifer o ieithoedd gan gynnwys Arabeg, Cantoneg, Ffrangeg, Almaeneg, Gwjarati, Eidaleg, Portiwgaleg, Somaleg, Sbaeneg ac Wrdw.

**3.2** ***Nodau ac Amcanion ar gyfer 2003/04***

3.2.1 Mae adolygiad wrthi'n cael ei gynnal o ymarferoldeb defnyddio rhifau 0845 ar gyfer y Llinell Wybodaeth ac Archebu.  Os bydd yn cael ei gymeradwyo a'i weithredu, bydd holl drigolion Cymru yn talu cyfradd leol i ffonio'r llinell archebu lle bynnag y maent yn byw yng Nghymru.

3.2.2 Bydd Arddangosfa'r Cynulliad yn Adeilad y Pierhead, Bae Caerdydd yn cael ei gwella yn sgîl cyflwyno taith sain o'r arddangosfa weledol bresennol. Bydd y daith sain yn darparu cyfieithiad amlieithog a bydd yn addas ar gyfer pobl anabl.  Yn ogystal, bydd taith sy'n addas i blant fel ymwelwyr achlysurol a phlant ar deithiau addysgol a drefnwyd ymlaen llaw yn rhan o'r cyfleuster newydd hwn.

## 4. Mynediad Corfforol i'r Cynulliad

### *4.1 Adolygiad o 2002/03*

4.1.1 Mae gan y Cynulliad stondin mewn digwyddiadau cenedlaethol yn ystod misoedd yr haf, gan gynnwys Sioe Frenhinol Cymru a'r Eisteddfod Genedlaethol, yn cynnwys arddangosfa ynghylch gwaith y Cynulliad.  Mae'r cyfleusterau yn yr arddangosfa wedi'u harchwilio er mwyn ceisio gwella cynhwysiant cymdeithasol a mynediad.

4.1.2 Cynhelir nifer o gyfarfodydd Pwyllgorau'r Cynulliad mewn lleoliadau ledled Cymru. Mae mynediad yn un o nifer o ystyriaethau allweddol wrth ddewis lleoliadau addas.

4.1.3 Gwella mynediad oedd un o'r nodau craidd wrth ailgynllunio mynedfa a derbynfa adeilad y Cynulliad.

4.1.4 Mae cadeiriau i alluogi pobl sy'n defnyddio cadair olwyn i adael adeilad os bydd tân wedi'u gosod ac mae staff wedi derbyn hyfforddiant ynghylch sut i'w defnyddio.

4.1.5 Cynigir cynllun i gyfrannu arian at gostau teithio i'r Cynulliad er mwyn cynorthwyo ysgolion o’r tu allan i'r ardal leol i ymweld.

### *4.2 Nodau ac Amcanion ar gyfer 2003/04*

4.2.1 Bydd materion cynhwysiant yn cael eu hystyried yn drylwyr wrth gynllunio presenoldeb y Cynulliad mewn digwyddiadau y tu allan i adeiladau'r Cynulliad.

4.2.2 Bydd pob aelod o staff llinell flaen newydd yn mynychu sesiynau hyfforddiant ac ymwybyddiaeth o gydraddoldeb ac anabledd er mwyn sicrhau bod lefelau dealltwriaeth yn cael eu cynnal a'u gwella.

## 5. Gwasanaethau'r Pwyllgorau ac Ymchwil yr Aelodau

### *5.1 Adolygiad o 2002/03*

5.1.1 Mae Gwasanaethau'r Pwyllgorau ac Ymchwil yr Aelodau yn rhoi cymorth ac arweiniad i bwyllgorau pwnc a sefydlog y Cynulliad ac yn darparu gwasanaeth ymchwil ymatebol i Aelodau Cynulliad unigol.

5.1.2 Gall Pwyllgorau wneud cyfraniad pwysig o ran cyfle cyfartal drwy eu gwaith datblygu polisïau. Cynhwysir sefydliadau allweddol ym maes cydraddoldeb mewn ymarferion ymgynghori pwyllgorau ac fe'u gwahoddir yn rheolaidd i fynychu cyfarfodydd pwyllgorau. Mae'r comisiynau cydraddoldeb statudol, a Stonewall Cymru, yn wahoddedigion sefydlog i'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal.

5.1.3 Cynhaliodd Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal adolygiad polisi o'r Gwasanaethau a Ddarperir i Sipsiwn a Chrwydriaid. Cyhoeddodd Y Pwyllgor Diwylliant adroddiad ar 'Ein Hiaith: Ei Dyfodol' ym mis Mehefin 2002.

5.1.4 Cynhyrchodd Gwasanaethau'r Pwyllgorau ac Ymchwil yr Aelodau dros 100 darn o ymchwil ar faterion yn ymwneud â chydraddoldeb, ar gyfer gwahanol gwsmeriaid.

### *5.2 Nodau ac Amcanion ar gyfer 2003/04*

5.2.1 Mae sawl pwyllgor yn ymgymryd ag adolygiadau polisi gan ganolbwyntio'n arbennig ar gydraddoldeb. Mae'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal yn adolygu pa mor effeithiol y mae'r Cynulliad yn prif ffrydio cydraddoldeb. Mae'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes yn ystyried y ddarpariaeth ar gyfer Anghenion Addysgol Arbennig. Mae Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad yn archwilio'r agweddau ar gynllunio sy'n gysylltiedig â thai fforddiadwy a chymunedau cynaliadwy yng nghefn gwlad. Mae'r Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio yn archwilio anghenion Tai pobl hŷn.

5.2.2 Bydd Gwasanaethau'r Pwyllgorau ac Ymchwil yr Aelodau yn cydweithio â Gwasanaethau Corfforaethol er mwyn trefnu hyfforddiant mewn cydraddoldeb ar gyfer Aelodau Pwyllgorau. Bydd ymwybyddiaeth o faterion sy'n gysylltiedig â chydraddoldeb yn rhan o hyfforddiant cynefino staff newydd Gwasanaethau'r Pwyllgorau ac Ymchwil yr Aelodau.

5.2.3 Mae Gwasanaethau'r Pwyllgorau ac Ymchwil yr Aelodau yn gwella ei allu i ymdrin yn effeithiol â materion trawsbynciol fel cydraddoldeb, gan ddod ag arbenigedd o bob rhan o’r seilwaith presennol ynghyd.

5.2.4 Mae Llyfrgell yr Aelodau wrthi'n cael ei had-drefnu er mwyn ei gwneud yn haws i'w defnyddio ac i gael mynediad ati.

## 6. Mentrau Adnoddau Dynol yn Swyddfa'r Llywydd

### *6.1 Gwaith a gynhaliwyd a Llwyddiannau yn ystod 2002/03*

6.1.1 Mae staff Swyddfa'r Llywydd yn rhan o staff Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac o ganlyniad mae ganddynt yr un telerau ac amodau cyflogaeth. Mae Swyddfa'r Llywydd yn chwarae rhan gyflawn mewn mentrau ar draws y Cynulliad er mwyn hyrwyddo cydraddoldeb, gan gynnal gweithgareddau lleol i'w hategu fel y bo'n briodol.

6.1.2 Mae nifer o fentrau wedi'u cyflwyno er mwyn cynyddu nifer y grwpiau nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n briodol o fewn Swyddfa'r Llywydd.

- Bu i Swyddfa'r Llywydd chwarae rhan flaenllaw mewn cynllun peilot i annog ymgeiswyr anabl i'r Cynulliad o dan drefniadau'r Fargen Newydd. Bu i Swyddfa’r Llywydd gynnig pedair swydd Cynorthwy-ydd Gweinyddol fel rhan o'r cynllun.
- Mae'r polisi hysbysebu yn adlewyrchu ein hymrwymiad i gyfle cyfartal.
- Mae'n ofynnol i bob ymgeisydd gwblhau holiadur cyfle cyfartal er mwyn monitro ystadegau ynghylch Anableddau ac Ethnigrwydd ar gyfer pob cynllun recriwtio.

6.1.3 Mae prosesau recriwtio allanol sy'n benodol o ran swyddi yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Mae Swyddfa’r Llywydd yn cymryd pob cam i sicrhau nad yw ond meini prawf sy'n hanfodol i'r swydd yn cael eu cynnwys mewn manylebau person ac nad yw cymwysterau penodol yn cael eu cynnwys os nad ydynt yn hanfodol ar gyfer y swydd.

6.1.4 Mynychodd holl staff Swyddfa'r Llywydd Hyfforddiant gorfodol mewn Cydraddoldeb yn ystod 2002/03. Mae'r hyfforddiant hwn bellach yn rhan o broses gynefino pob aelod o staff newydd. Mae staff personél llinell flaen wedi derbyn hyfforddiant ychwanegol mewn cydraddoldeb ac anableddau. Mae'r holl hyfforddiant staff yn cael ei fonitro er mwyn sicrhau ymwybyddiaeth o faterion cydraddoldeb a gwasanaeth cynhwysol i bob ymwelydd â'r Cynulliad.

6.1.5 Mae Swyddfa’r Llywydd yn cyflogi gweithwyr rhan-amser a gweithwyr sy'n rhannu swyddi ac mae wedi mabwysiadu trefniadau gweithio hyblyg er mwyn galluogi staff i ymgymryd â'u cyfrifoldebau teuluol a chyflawni eu gwaith yn ddidrafferth. Mae hyn yn arbennig o berthnasol pan na fydd y Cynulliad yn cyfarfod, sy'n cyd-fynd â gwyliau ysgolion.

6.1.6 Yn ystod 2002-03 cyflwynwyd cynllun peilot Gwasanaeth Cyfathrebu'r Cynulliad ar gyfer gweithwyr cartref. Cyflogwyd pedwar cyfieithydd a dau olygydd ar gyfer Cofnod y Trafodion i weithio gartref. Mae'r hyblygrwydd i weithio gartref eisoes wedi'i estyn i gyfieithwyr sydd eisoes yn gweithio i'r Cynulliad ac mae un aelod o'r tîm wedi manteisio ar y cyfle. Mae hyn wedi creu adnodd cyfieithu ychwanegol ac wedi galluogi staff i weithio o dan drefniadau gweithio gartref mwy hyblyg ledled Cymru. Mae aelodau o staff

mewn rhannau eraill o Swyddfa'r Llywydd hefyd yn gweithio gartref rhan-amser.

6.1.7 Cyflwynwyd menter arall sydd wedi'i chynllunio i archwilio posibiliadau adnabod llais yn ystod 2002-03. Cyfrannodd y Gwasanaeth Cyfieithu fewnbwn i astudiaeth ddichonoldeb is-adrannol ynghylch defnyddio meddalwedd adnabod llais er mwyn darparu cyfleoedd eraill i staff na all ddefnyddio sgiliau bysellfwrdd am resymau iechyd ac er mwyn lleihau'r perygl i staff ddatblygu anableddau sy'n gysylltiedig â bysellfwrdd.

### *6.2 Nodau ac Amcanion ar gyfer 2003/04*

6.2.1 Sefydlu 'recriwtio agored' yw cam cyntaf strategaeth Swyddfa'r Llywydd i gynyddu nifer y grwpiau nad ydynt wedi'u cynrychioli'n ddigonol o fewn y gweithlu. Cafodd y dull hwn ei fonitro a gwelwyd nad oedd ond 4% o'r ceisiadau am swyddi yn dod o'r gymuned Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig yn ystod y flwyddyn ariannol 2002/2003. O ganlyniad mae strategaeth Swyddfa'r Llywydd wedi'i hatgyfnerthu er mwyn cynnwys rhagor o gynlluniau gweithredu cadarnhaol fel yr amlinellir isod.

6.2.2 O dan y Fargen Newydd ar gyfer Pobl Anabl dechreuodd pedwar Cynorthwy-ydd Gweinyddol weithio o fewn Swyddfa'r Llywydd. Mynychodd eu rheolwyr llinell Gwrs Ymwybyddiaeth o Anableddau. Mae'r prosiect yn cael ei werthuso er mwyn sicrhau bod mentrau yn y dyfodol yn addas at eu diben.

6.2.3 Mae Swyddfa'r Llywydd wedi dechrau gwerthuso dichonoldeb prosiect gweithredu cadarnhaol er mwyn gwella'r gynrychiolaeth o staff o'r Gymuned Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig. Mae Adnoddau Dynol wrthi'n gwerthuso'r opsiynau ar gyfer cyflwyno cynllun hyfforddiant, a gynhelir mewn partneriaeth â darparwr hyfforddiant, er mwyn darparu'r sgiliau sydd eu hangen ar y gymuned Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig, fel y gallant gystadlu am swyddi is-reolwyr o fewn y Swyddfa a'r Cynulliad ehangach.

6.2.4 Mae Swyddfa'r Llywydd ar y cyd â gweddill y Cynulliad wrthi'n cyflwyno system AD/TG newydd a fydd yn gwella cywirdeb data a gedwir ynghylch y gweithlu presennol ac ymgeiswyr am swyddi.

6.2.5 Mae'r Clerc yn bwriadu cyfarfod ag arweinwyr cymunedau mewn ardaloedd lleol er mwyn trafod cyfleoedd o ran swyddi yn y Cynulliad.

6.2.6 Fel rhan o fesurau cydbwyso bywyd a gwaith, bydd cyfleoedd i staff weithio oriau hyblyg tra bod y Cynulliad yn cyfarfod neu yn ystod y toriad yn cael eu hystyried. Bydd cynllun peilot gweithwyr cartref y Gwasanaeth Cyfieithu yn parhau am chwe mis a bydd yn cael ei fabwysiadu os bydd y trefniadau'n foddhaol ac o fudd i bawb. Bydd adroddiad interim yn cael ei baratoi ar gyfer Pwyllgor y Ty ym mis Tachwedd 2003.

6.2.7 Bydd y cynllun peilot adnabod llais yn cael ei ymestyn i gynnwys staff Cofnod y Trafodion pan fydd y feddalwedd recordio yn cael ei diweddaru ar

ddechrau 2004. Nid yw'r feddalwedd a ddefnyddir ar hyn o bryd yn addas ar gyfer adnabod llais.

6.2.8 Mae Swyddog Mynediad wedi'i benodi o fewn y gangen Gwybodaeth i'r Cyhoedd. Dyma swydd allweddol a fydd yn hyrwyddo cyfle cyfartal. Mae ei gwaith yn cynnwys cysylltu â chyrff statudol, gwirfoddol a phroffesiynol perthnasol a chydweithio â hwy ac ymateb i'w gofynion newidiol. Bydd hefyd yn darparu gwybodaeth am faterion mynediad i Aelodau Cynulliad ac i swyddogion y Cynulliad. Bydd deiliad y swydd hefyd yn cynrychioli cwsmeriaid er mwyn sicrhau bod yr adnoddau gwybodaeth a'r gwasanaethau a ddatblygir yn gynhwysol ac yn ystyried anghenion pob cwsmer.

## Rhagair gan Syr Jon Shortridge KCB – Ysgrifennydd Parhaol

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r gwaith a wnaed i hyrwyddo cyfle cyfartal yn y Cynulliad o fis Ebrill 2002 i fis Mawrth 2003. Mae Swyddfa'r Llywydd yn paratoi adroddiad ar wahân ar ei gwaith i hyrwyddo cyfle cyfartal.

Mae'n ddyletswydd ar Lywodraeth y Cynulliad, yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru, i roi sylw dyladwy i gyfle cyfartal wrth gynnal ei busnes a gweithredu'i swyddogaethau. Cafwyd llawer o fentrau gwerth chweil mewn ymateb i'r dyletswydd hwn yn ystod y flwyddyn, yn cynnwys yr Ymgyrch Cyflog Cyfartal, Strategaeth Tai ar gyfer Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig a'n rhaglen hyfforddiant cydraddoldeb i staff y Cynulliad.

Mae Uned Penodiadau Cyhoeddus y Cynulliad wedi bod yn gweithio i ddarparu cynllun gweithredu i ddatblygu mentrau i hyrwyddo amrywiaeth mewn penodiadau cyhoeddus. Comisiynwyd ymchwil ar beth sy'n cymell pobl i ymgymryd â swyddi cyhoeddus, a defnyddiwyd y canlyniadau i wella'r ffordd o ledaenu gwybodaeth a hysbysebu swyddi. Rydym wrthi'n paratoi cynllun hefyd i helpu unigolion o grwpiau sydd heb eu cynrychioli'n ddigonol i ddatblygu sgiliau a hyder i ymgymryd â swyddi cyhoeddus. Bydd gwaith ar y cynlluniau hyn, a mentrau eraill, yn parhau drwy gydol y flwyddyn.

Mae ein cyflawniadau wedi darparu sylfaen gadarn i ddatblygu dull newydd o weithio, a fydd yn cynnwys cyfle cyfartal yng nghyfansoddiad y sefydliad. Rwyf yn ymrwymedig i ddatblygu hyn trwy brif ffrydio cydraddoldeb ac i sicrhau bod y Cynulliad yn rhoi arweiniad clir ac yn gweithredu arferion gorau. I'r diben hwnnw, byddaf yn sicrhau datblygiad parhaus ein staff er mwyn gofalu bod gweithredu cydraddoldeb yn dod yn elfen ganolog o'r ffordd y byddwn yn cyflawni ein swyddogaeth.

Tua diwedd y flwyddyn penodwyd pennaeth newydd i'r Uned Polisi Cydraddoldeb – Yasmin Hussein. Mae wrthi yn ailstrwythuro'r Uned fel ei bod yn gallu chwarae mwy o ran i gefnogi datblygiad mewnol trwy'r Cynulliad, gan sicrhau dull mwy strategol o brif ffrydio cydraddoldeb. Yn arbennig, bydd yr Uned yn gosod pwyslais o'r newydd ar gefnogi a datblygu cysylltiadau gweithio cryfach gyda chymunedau difreintiedig a'r rhai ar y cyrion, er mwyn hyrwyddo datblygiad polisi goleuedig a gwella darpariaeth gwasanaeth.

Mae'r gwaith yn parhau ar adolygu ein Cynllun Cydraddoldeb Hiliol ac ar weithredu'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt. Mae'r cynllun yn mynd trwy broses ymgynghori gyhoeddus o dri mis ar hyn o bryd. Mae hyn yn cynnwys sesiynau codi ymwybyddiaeth, grwpiau ffocws a chyfarfodydd cyhoeddus, yn ogystal â dulliau cyfathrebu electronig a phapur mwy traddodiadol. Bydd hyn yn rhoi darlun cliriach i ni o anghenion cymunedau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig. Bydd y gwersi a ddysgir o'r broses hon yn cael eu defnyddio i ddatblygu fframwaith a strategaeth ar gyfer prif ffrydio cydraddoldeb yn y Cynulliad.

Fel Ysgrifennydd Parhaol, byddaf yn parhau i geisio hyrwyddo cyfle cyfartal drwy holl elfennau cyfrifoldebau'r Cynulliad, yn ogystal â rhoi arweiniad a chyfeiriad i'w sefydliadau noddedig a phartner. Rydym yn cydnabod fod yna heriau mawr o'n blaen, yn arbennig o ran yr ymdrech barhaus i gyflawni'r dyletswyddau a osodwyd ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000, gweithredu Rhan III Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 a'r paratoadau ar gyfer gweithredu Cyfarwyddeb Cyflogaeth yr UE sy'n codi o Erthygl 13 Cytundeb Amsterdam (yn ymwneud â gwahaniaethu ar sail crefydd, tueddfryd rhywiol ac oedran). Bydd y rhain i gyd yn effeithio'n sylweddol ar waith Llywodraeth Cynulliad Cymru. Yn yr un modd, bydd datblygu elfennau cydraddoldeb newydd a ffurfio un corff cydraddoldeb hefyd yn helpu i roi proffil uwch i gyfle cyfartal a hawliau dynol yng ngwaith y Cynulliad.

Yn ystod y deuddeg mis nesaf byddwn yn gweld mwy o brif ffrydio cydraddoldeb a chysoni gweithgareddau yn well gyda blaenoriaethau busnes ac amcanion strategol craidd y Cynulliad. Bydd hyn yn cael ei adlewyrchu wrth ddirprwyo cydraddoldeb yn fwy i'r adrannau yn y Cynulliad ac wrth i ni gyflawni canlyniadau cyfle cyfartal cliriach.

JON SHORTRIDGE

## GWEITHGAREDDAU ALLWEDDOL

**Mae'r canlynol yn cynrychioli'r gweithgareddau allweddol y bu adrannau Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio arnynt i hyrwyddo cyfle cyfartal.**

## CYFIAWNDER CYMDEITHASOL AC ADFYWIO

### Y GYFARWYDDIAETH DAI

**Oedran / Anabledd**

- Mae gwasanaethau Gofal a Thrwsio yn rhoi cymorth i'r henoed a phobl anabl i'w galluogi i wneud gwelliannau i'w cartrefi. Yn aml, bydd hyn yn osgoi'r angen iddynt fynd i ofal dan oruchwyliaeth, ac yn eu galluogi i aros yn eu cartrefi eu hunain yn y gymuned maent yn dewis byw ynddi. Mae yna 24 asiantaeth Gofal a Thrwsio yng Nghymru, sy'n darparu gwasanaeth eang iawn. Maent yn rhoi cymorth ymarferol gyda'r broses grantiau adnewyddu tai, yn rheoli gwaith adeiladu ac yn rhoi cyngor ar gontractwyr dibynadwy. Yn y flwyddyn ariannol 2002-03, roedd y Cynulliad yn cyfrannu £1.36 miliwn tuag at gostau rhedeg craidd.

### HIL

**Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar Dai i Bobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig (BME)**

- Yn ystod cyfarfod llawn y Cynulliad Cenedlaethol ar 7 Mai 2002 cymeradwywyd Cynllun Gweithredu i Gymru ar Dai i Bobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig. Mae'r Cynllun yn rhan o agenda ehangach y Cynulliad i gyflawni ei ddyletswyddau dan Ddeddf Diwygio Cysylltiadau Hiliol 2000. Mae hefyd yn cyd-fynd â phrif thema "Cyfle Cyfartal" Cynllun i Gymru Llywodraeth Cynulliad Cymru.

- Mae'r Cynllun Gweithredu yn cynnwys camau gweithredu penodol sydd angen eu rhoi ar waith gan y Cynulliad, landlordiaid cymdeithasol a sefydliadau tai eraill yng Nghymru i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol ac i ddiwallu anghenion tai a gofynion cartrefi BME Cymru. Mae'r paragraffau canlynol yn nodi'r camau gweithredu penodol a gymerodd Llywodraeth y Cynulliad yn 2002-03.

- Ar 24 Medi 2003, lansiodd Mrs Edwina Hart AC y Cynllun Gweithredu yn swyddogol mewn digwyddiad yn y Gyfnewidfa Lo yng Nghaerdydd. Cafwyd adroddiad ar BBC Cymru ac yn y wasg dai. Cafwyd cynrychiolaeth o ystod eang o BME a sefydliadau tai yn cynnwys

awdurdodau lleol, landlordiaid cymdeithasol cofrestredig (RSLs), sefydliadau tai cenedlaethol a sefydliadau BME cenedlaethol / lleol.

- **Yn ystod 2002-03 roedd gwaith y Gyfarwyddiaeth Dai mewn perthynas â Chynllun Gweithredu Tai BME i Gymru yn cynnwys:**

    - Prif ffrydio materion BME i bolisïau, rhaglenni a chanllawiau newydd, yn cynnwys: "strategaethau tai lleol" a chanllawiau "dadansoddi marchnadoedd tai", "Safon Ansawdd Tai Cymru", "Datblygu Gofynion Ansawdd ar gyfer RSLs"; "Strategaeth Genedlaethol ar Ddigartrefedd"; Cod Cyfarwyddyd ar gyfer yr Awdurdodau Lleol ar Ddyrannu Llety a Digartrefedd"; a "Trefniadau Adnewyddu Tai yn y Sector Preifat".

    - Cyhoeddi ymchwil i "*Housing and Socio-Economic Circumstances of BME People in Wales*" (gan Ganolfan Cathie Marsh, Prifysgol Manceinion).

    - Sefydlu Rhaglen Grantiau Tai BME. Ym mis Mawrth 2003, dyfarnwyd £110,721 i wyth prosiect i ddatblygu Strategaethau Tai BME unigol neu ranbarthol, a £92,321 yn 2003-2004 (£160,683 dros dair blynedd) i wyth prosiect i ddatblygu arferion da ac arloesedd mewn perthynas â thai BME. Mae'r rhain, er enghraifft, yn cynnwys prosiectau i gael tenantiaid BME i gymryd mwy o ran, ac i benodi hyfforddeion PATH.

    - Darparu cyllid i Lemos a Crane i greu Cyfarwyddiadur Cenedlaethol ar-lein ar gyfer Gweithredu yn erbyn Aflonyddwch Hiliol, sef "RaceActionNet". Rhwydwaith gweithredu yw hwn sy'n dwyn ynghyd ymarferwyr a llunwyr polisi o sectorau amrywiol ac sydd â chyfrifoldeb cyhoeddus dros fynd i'r afael ag aflonyddwch hiliol i rannu arferion da, nodi problemau a chynnig atebion.

    - Cynnal Cynhadledd Tai BME Genedlaethol (a chyhoeddi adroddiad ar y gynhadledd wedi hynny) gyda tua 250 o fynychwyr yn cynnwys staff BME mewn sefydliadau tai, staff sy'n ymwneud â llunio strategaethau a chynlluniau BME, grwpiau cymuned BME a thenantiaid allweddol.

    - Noddi Prosiect Tai BME, a oedd yn hyrwyddo arferion da a chynnwys pobl BME mewn sefydliadau tai cymdeithasol, a llunio adroddiad yn ymchwilio ymarferoldeb sefydlu sefydliad tai BME yng Nghymru. O ganlyniad, cytunodd Gweinidogion a'r Pwyllgor mewn egwyddor i argymhelliad yr Adroddiad i sefydlu sefydliad tai BME eilaidd yng Nghymru.

- <u>Penododd y Gyfarwyddiaeth Dai unigolyn ar secondiad o AWEMA (Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan) am 2-3 blynedd o ddechrau mis Ebrill 2002, i weithio gyda swyddogion i ddatblygu ac adolygu polisi, arferion a chanllawiau tai BME.</u>

**Materion Cydraddoldeb Cyffredinol**

- Roedd y Gyfarwyddiaeth Dai hefyd yn gysylltiedig â "chynyddu yr amrywiaeth o weithwyr cyflogedig yn y Cynulliad" trwy ddarparu lleoliadau hyfforddiant a chyfleoedd cysgodi gwaith i unigolion o grwpiau nad oedd wedi'u cynrychioli'n ddigonol. Cafwyd dau fyfyriwr ar leoliad yn 2002.

**'Cefnogi Pobl':**

- Polisi a fframwaith cyllido newydd i dai lle ceir cefnogaeth oedd 'Cefnogi Pobl'. Mae'n cynrychioli dull newydd o ddarparu cefnogaeth i bobl sy'n agored i niwed er mwyn iddynt allu parhau i fyw yn eu cartrefi. Trwy gefnogi'r grwpiau sy'n fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas, mae tai lle ceir cefnogaeth yn cyfrannu at agenda cyfle cyfartal Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae darparwyr gwasanaeth wedi datblygu gwasanaethau penodol yn ymwneud â rhyw, hil ac anabledd.

- Fel rhan o'r fframwaith cyllido newydd, cyflwynodd Llywodraeth y Cynulliad gynllun achredu darparwyr. Mae'r cynllun hwn yn rhoi'r hyder bod derbynwyr Grant Refeniw Cefnogi Pobl (SPRG) yn gallu cael sicrwydd sylfaenol ar lywodraethu a gonestrwydd, sicrwydd a safonau ariannol i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu gan gyrff dibynadwy yn unig. Mae asesu ceisiadau yn cynnwys ystyried polisïau a gweithdrefnau cyfle cyfartal sefydliadau. Hyd yn hyn, mae 22 awdurdod lleol, 31 landlord cymdeithasol cofrestredig ac 20 sefydliad gwirfoddol wedi llwyddo i ennill statws darparwr cefnogaeth achrededig, ac mae eraill yn gweithio tuag at hyn.

**Digartrefedd:**

- Mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi ymrwymo i ddileu'r angen i bobl gysgu ar y stryd ac i sicrhau bod pawb sydd ei angen yn cael mynediad i dai cymdeithasol o ansawdd da. Ym mis Ebrill 2003, mabwysiadodd y Cynulliad Strategaeth Genedlaethol ar Ddigartrefedd sy'n gosod ei agenda ar gyfer gweithredu. Cyflwynwyd y Ddeddf Ddigartrefedd gan Lywodraeth y Cynulliad hefyd ym mis Gorffennaf 2002, a chanllawiau statudol diwygiedig ym mis Ebrill 2003. Trwy ei strategaeth a'i ganllawiau cenedlaethol, mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn gweithio i sicrhau nad oes unrhyw ran o'r gymuned yn dioddef mwy o anfantais yn sgil digartrefedd.

- Yng nghyd-destun y gwaith hwn ar ddigartrefedd, mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi cefnogi lansio adroddiad mawr newydd ar ddigartrefedd ymysg lesbiaid a hoywon ifanc (LGB), ac yn ariannu ymchwil pellach i nodi sut y gall arferion da ddiwallu anghenion penodol y grŵp hwn yng Nghymru. Mae rhaglen grant digartrefedd hefyd yn cael ei chyfeirio at atal digartrefedd ymysg grwpiau difreintiedig mewn ffyrdd eraill, fel ariannu gwasanaeth cynghori cenedlaethol newydd ar dai i bobl LGB sydd mewn perygl o fod yn ddigartref, a gwasanaeth cynghori tai i'r gymuned Somali.

**UNED DIOGELWCH CYMUNEDOL**

**Hil**

- **Cymdeithas Menywod Saheli**: Nod Cymdeithas Saheli Cymru gyfan yw cefnogi menywod a theuluoedd Asiaidd ledled Cymru trwy greu llwybr mynediad priodol i wasanaethau prif ffrwd nad oeddynt yn ymwybodol ohonynt o bosib yn y gorffennol. Yn ogystal, trefnodd y gymdeithas weithgarwch allanol i gefnogi menywod a phlant a oedd wedi dioddef aflonyddwch neu ymosodiad yn dilyn trasiedi 11 Medi. Ar ddechrau 2003, trefnodd y gymdeithas y gynhadledd gyntaf i fenywod Moslemaidd yng Nghymru, a amlygodd yr anawsterau a'r achosion o wahaniaethu sy'n wynebu menywod Moslemaidd wrth geisio cael gafael ar wasanaethau perthnasol yng Nghymru. Ers 2001, mae Saheli wedi derbyn £12,600 o gronfa ddatblygu partneriaeth Cymru gan y gyfarwyddiaeth leihau trais i hwyluso eu gwaith.

- **TRAIS AR SAIL CASINEB**: CYHOEDDODD YR UNED DIOGELWCH CYMUNEDOL BAPUR AR DRAIS CASINEB I LYWODRAETH LEOL A'R PWYLLGOR TAI. ROEDD Y PAPUR YN MANYLU AR GATEGORÏAU POBL SYDD WEDI DIODDEF TRAIS OHERWYDD EU FFYDD, EU TUEDDFRYD RHYWIOL, NEU EU HIL. ROEDD HEFYD YN EDRYCH AR Y SEFYLLFA STATUDOL O RAN TRAIS AR SAIL CASINEB AC YN DADANSODDI FFIGURAU YR ACHOSION SWYDDOGOL O DROSEDDAU HILIOL. YN OGYSTAL, ROEDD YN EDRYCH AR WAITH MYND I'R AFAEL Â THRAIS RHAI O'R 22 PARTNERIAETH DIOGELWCH CYMUNEDOL YNG NGHYMRU.

## CYFARWYDDIAETH CYMUNEDAU

## ANABLEDD

- Wrth ddatblygu polisïau a rhaglenni, bu staff yn ystyried anghenion y rhai ag anableddau ac yn edrych ar ffyrdd o gynyddu cyfranogiad pobl anabl. Er enghraifft, dan Cymunedau'n Gyntaf, mae Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall (RNIB) a Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Fyddar (RNID) yn cael arian i helpu pobl sy'n ddall neu'n rhannol ddall, a phobl sy'n fyddar neu sydd ag anawsterau clywed, i gymryd rhan yn llawn yn y rhaglen. Rhwng 2001-2004, dyfarnwyd £209,693 i'r RNIB a £353,800 i'r RNID gyflawni'r gwaith hwn.

### Hil

- **Cymunedau'n Gyntaf**: Mae dwy Gymuned o Ddiddordeb yng Nghasnewydd a Chaerdydd wedi'u cynnwys yn y rhaglen Cymunedau'n Gyntaf. Mae'r ddwy wedi'u lleoli mewn ardaloedd sydd a chyfran cymharol uchel o bobl o leiafrifoedd ethnig. Mae Rhwydwaith Sector Gwirfoddol Pobl Dduon yn derbyn arian gan raglen Cymunedau'n Gyntaf i sicrhau cefnogaeth a chyngor, ac i ddatblygu a gweithredu'r rhaglen mewn ffordd sy'n ystyried anghenion cymunedau lleiafrifoedd ethnig yn llawn. Bydd hyn hefyd yn sicrhau bod Partneriaethau a Chydlynwyr Cymunedau'n Gyntaf yn gweithredu mewn ffordd sy'n hyrwyddo cytgord hiliol ac yn darparu cyfle cyfartal. Mae'r Tîm Cefnogi Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig hefyd yn derbyn arian i gael pobl o leiafrifoedd ethnig i gymryd rhan y broses Cymunedau'n Gyntaf.

- **Cronfa Datblygu Swyddfeydd Post:** Datblygwyd y gronfa hon trwy ddefnyddio pecyn polisi'r Cynulliad ac felly roedd yn ystyried yr effaith ar gydraddoldeb hiliol a chysylltiadau hiliol. Wrth ddatblygu'r gronfa, daeth yn amlwg y gallai isbostfeistri/isbostfeistresi o wahanol gefndiroedd ethnig fod angen cymorth arbennig i baratoi ceisiadau. Lle bo angen, bydd trefniadau'n cael eu gwneud i gyfarfod ymgeiswyr, ac i egluro'r broses ymgeisio.

### Materion Cydraddoldeb Cyffredinol

- **Egwyddor Arweiniol Cynhwysiant Cymdeithasol**: Mae'r Gyfarwyddiaeth Cymunedau yn chwarae rhan allweddol i sicrhau bod y Cynulliad yn mabwysiadu'r egwyddor arweiniol o gynhwysiant cymdeithasol trwy ei waith, sef datblygu cymdeithas fwy diogel a chynhwysol sy'n rhoi cyfle i bawb gyflawni eu potensial. Mae hefyd yn gyfrifol am ddatblygu polisïau a rhaglenni i greu cymunedau cryf, yn arbennig o ran lleihau'r bwlch rhwng yr ardaloedd tlotaf a chyfoethocaf a helpu i greu Cymru y mae pobl ifanc o bob hil a chefndir am fyw a gweithio ynddi.

- **Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau yn y Gymuned:** Dyfarnwyd arian i gefnogi sefydliadau yn eu gwaith gyda grwpiau lleiafrifoedd ethnig dan y rhaglen hon. Yn eu plith mae Gweithdy Menywod Caerdydd sy'n cynnal prosiect wedi'i anelu at fenywod o leiafrifoedd ethnig a phrosiect Sipsiwn Crwydrol Caerdydd. Mae staff yn rhoi cymorth i bobl o gymunedau lleiafrifoedd ethnig sy'n paratoi ceisiadau am brosiectau posib.

## UNED POLISI CYDRADDOLDEB

### Anabledd

Mae'r UPC wedi cyfrannu'n helaeth at nifer o ddigwyddiadau allweddol yn ymwneud ag anabledd. Roedd y rhain yn cynnwys:

**Paratoi ar gyfer Cyngres Ryngwladol Pobl Ifanc Anabl:**

- Roedd y Gyngres hon yn llwyddiant mawr a bu'n gyfrwng i amlygu anghenion pobl ifanc â namau yng nghyd-destun anabledd. Roedd yn enghraifft dda o gydweithio agos rhwng y Llywodraeth â'r sectorau statudol a gwirfoddol, gyda'r nod o allu ymateb yn well i anghenion pobl ifanc.

***Barriers Are Coming Down*:**

- Ymgyrch Codi Ymwybyddiaeth Rhan III y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd – *Barriers Are Coming Down*. Cyflawnwyd hyn mewn partneriaeth â'r Comisiwn Hawliau Anabledd, Anabledd Cymru a Hyfforddwraig Cydraddoldeb Anabledd annibynnol Rosie Morriaty Simmonds.

Cynhaliwyd pedwar gweithdy ledled Cymru:

  - Y Canolbarth – Aberystwyth
  - Y Gogledd – Canolfan Fusnes Conwy
  - Y De Orllewin – Canolfan Dylan Thomas, Abertawe
  - Y De Ddwyrain – Neuadd y Ddinas Caerdydd

- Mynychodd llawer y gweithdai ac roedd dros bedwar cant o ddarparwyr gwasanaeth o'r sectorau cyhoeddus a phreifat yno. Cafwyd arfarniad cadarnhaol o'r digwyddiadau, gydag ymwybyddiaeth uwch o ddyletswyddau deddfwriaethol y Comisiwn Hawliau Anabledd nawr ac yn y dyfodol ac o effaith gwahaniaethu ar bobl anabl.
- Llywodraeth Cynulliad Cymru yw'r unig lywodraeth ranbarthol sy'n noddi digwyddiadau codi ymwybyddiaeth, ac fe'i cymeradwywyd gan y Comisiwn Hawliau Anabledd am ei phartneriaeth a'i dull blaengar.

**Paratoi ar gyfer Blwyddyn Ewropeaidd Pobl Anabl 2003 (BEPA):**

- Ym mis Gorffennaf, sefydlodd yr Uned Polisi Cydraddoldeb Grŵp Hwyluso BEPA Cymru gyfan i ddatblygu a darparu rhaglen o ddigwyddiadau / mentrau yn gysylltiedig â'r flwyddyn Ewropeaidd. Partneriaeth rhwng cyrff statudol a grwpiau gwirfoddol yw'r grŵp.

- Ar Ionawr 20 2003, mewn partneriaeth â'r grŵp hwyluso, lansiwyd Blwyddyn Ewropeaidd Pobl Anabl yng Nghymru mewn digwyddiad gala a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir Caerdydd.  Roedd y noson yn gymysgedd o ryddiaith, drama, celf a cherddoriaeth a gynhyrchwyd ac a berfformiwyd gan artistiaid anabl, yn ehangu'r thema ar gyfer y flwyddyn cymryd rhan a chynhwysiant.  Parhawyd y thema hon trwy ddarparu cefnogaeth gyfathrebu lawn *Palentype* a chyfieithu Iaith Arwyddion Prydain. Roedd sgriniau plasma yn sicrhau y gellid gweld y perfformiadau o bob rhan o'r neuadd.

**Gweithredu Hawliau 2003:**

- Ariannodd Llywodraeth Cynulliad Cymru Gyngres Ryngwladol Pobl Ifanc Anabl. Trefnwyd y digwyddiad gan grŵp llywio yn cynnwys cynrychiolwyr o'r sefydliadau gwirfoddol a statudol ac fe'i cadeiriwyd gan Gomisiynydd y Comisiwn Hawliau Anabledd, Dr Kevin Fitzpatrick.
- Noddwyd y digwyddiad gan y Cynulliad a darparwyd cefnogaeth ysgrifenyddiaeth ganddynt o'r Uned Polisi Cydraddoldeb.
- Llywiwyd y grŵp hefyd gan y grŵp pobl ifanc Dweud Eich Dweud a chysylltiadau eraill. Y grŵp wnaeth ddylunio'r logo ac ysgrifennu'r rhaglen ac roedd ganddynt fewnbwn sylweddol i sut fyddai'r gyngres yn cael ei rhedeg a'r ffordd ymlaen. Y canlynol oedd amcanion y Gyngres:

➢ Galluogi pobl ifanc anabl yng Nghymru i feithrin cysylltiadau â'u cyfoedion mewn gwledydd eraill a chael hwyl ar yr un pryd

➢ Codi ymwybyddiaeth o hawliau ymhlith pobl ifanc anabl yng Nghymru

➢ Galluogi pobl ifanc eu hunain i gymryd rhan yn y dasg o gynllunio, darparu, a phenderfynu ar unrhyw gamau gweithredu dilynol

➢ Cynyddu'r pwysau ar ddeddfwriaethwyr Ewropeaidd i gryfhau deddfwriaeth hawliau sifil i bobl anabl

➢ Marchnata Blwyddyn Ewropeaidd Pobl Anabl yng Nghymru a thu hwnt

- Erbyn diwedd y Gyngres, roedd y bobl ifanc wedi datblygu maniffesto a gyflwynwyd i grŵp llywio craidd o bobl ifanc a etholwyd i'w ddatblygu ymhellach. Sefydlwyd gwefan ac mae'r holl gynrychiolwyr yn awyddus i barhau'r gwaith yn rhyngwladol ac yn genedlaethol.

**RHYW**

**Cyflog cyfartal:**

- Mae Cymru'n arwain y ffordd ar gyflog cyfartal yn y DU gyfan, yn ôl yr Adran Masnach a Diwydiant, papur newydd yr Observer a chylchgronau cydraddoldeb arbenigol fel Equal Opportunities Review. Mynegwyd diddordeb yn y strategaeth a fabwysiadwyd yng Nghymru, nid yn unig gan lywodraethau y DU a'r Alban, ond hefyd gan lywodraethau Canada ac Awstralia.

Cefndir:

- Yn ystod haf 2001, cytunwyd ar ymgyrch bartneriaeth i fynd i'r afael â chyflog cyfartal yng Nghymru. Partneriaid yr ymgyrch oedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CCC), y Comisiwn Cyfle Cyfartal (EOC) a TUC Cymru (WTUC).

- Ar ôl lansio ymgyrch "Cau'r Bwlch Cyflog" ym mis Mawrth 2002, y prif amcan oedd mynd i'r afael â gwahaniaethu mewn systemau cyflog a nodwyd hyn fel achos unigol mwyaf y bwlch cyflog rhwng y ddau ryw. Nod yr ymgyrch oedd codi ymwybyddiaeth o'r bwlch cyflog a sicrhau ymroddiad gan gyflogwyr i gynnal adolygiadau cyflog. Hwn oedd canolbwynt y gwaith drwy gydol yr ymgyrch. Yn ogystal, cychwynnwyd rhai mentrau ym maes addysg i annog plant i ddewis pynciau a gyrfaoedd llai traddodiadol ac i godi ymwybyddiaeth o gyflog cyfartal ymhlith myfyrwyr.

- Penodwyd Grŵp Gwaith ar y Cyd gan Bwyllgor Cyfle Cyfartal y Cynulliad i reoli'r ymgyrch. Grŵp gwaith trawsbleidiol yw hwn wedi'i gadeirio gan David Melding AC ac mae'n cynnwys Eleanor Burnham AC, Ann Jones AC a Helen Mary Jones AC, ynghyd â chynrychiolwyr o'r Comisiwn Cyfle Cyfartal, WTUC a'r Uned Polisi Cydraddoldeb.

- Un o flaenoriaethau'r ymgyrch oedd codi proffil cyflog cyfartal ymhlith cyflogwyr, yr undebau llafur a'r cyhoedd yng Nghymru. Ei nod, yn arbennig, oedd darbwyllo cyflogwyr i gynnal adolygiadau cyflog, a'r undebau i roi cyflog cyfartal ar frig yr agenda fargeinio. Datblygwyd set o ddeunyddiau ymgyrch i ddarbwyllo cyflogwyr o'r achos busnes dros gyflog cyfartal. Canolbwynt hwn oedd cyflwyniad fideo 11 munud yn cynnwys cyflogwyr a oedd wedi mynd i'r afael â materion cyflog cyfartal ac oedd yn gallu esbonio'r manteision busnes penodol. Rhoddwyd y cyflwyniad fideo a deunyddiau ychwanegol ar CD y gellir ei ddefnyddio ar y mwyafrif o gyfrifiaduron busnes. Dosbarthwyd y CD-ROMs i fwy na 1000 o gyflogwyr yng Nghymru.

- O ran ymwybyddiaeth gyffredinol, mae'r ymgyrch wedi llwyddo i greu cyhoeddusrwydd ac mae wedi cael llawer o sylw gan y cyfryngau Cymraeg a Saesneg. Yng Nghymru, darlledwyd hanes yr ymgyrch ar y teledu, gorsafoedd radio cyhoeddus a masnachol, a'r wasg leol a chenedlaethol. Mae nifer o ddigwyddiadau a datganiadau i'r wasg wedi cael sylw y tu hwnt i Gymru, yng ngwasg y DU a chylchgronau arbenigol.

**ADRODDIAD CEDAW:**

- CONFENSIWN AR GAEL GWARED AR BOB MATH O WAHANIAETHU YN ERBYN MENYWOD. (Y CENHEDLOEDD UNEDIG). HWN YW PUMED ADRODDIAD CEDAW Y DU. BU'R PWYLLGOR YN ASTUDIO'R TRYDYDD A'R PEDWERYDD ADRODDIAD YM MIS MEHEFIN 1999. BWRIEDIR I'R ADRODDIAD HWN DDIWEDDARU'R UN BLAENOROL, GAN ROI MANYLION DATBLYGIADAU ARWYDDOCAOL DROS Y 4 BLYNEDD DIWETHAF, NODI TUEDDIADAU ALLWEDDOL, A NODI RHWYSTRAU I GYDYMFFURFIO'N LLAWN Â'R CONFENSIWN AR GYFER Y CYFNOD 1 IONAWR 1999 I EBRILL 2003. RHODDWYD Y DARNAU PERTHNASOL O'R PEDWERYDD ADRODDIAD I NI I'N CYNORTHWYO GYDA'N CYFRANIAD I'R PUMED.

- Mae'r adroddiad hwn yn rhoi gwybodaeth am y mesurau deddfwriaethol, barnwrol, gweinyddol neu fesurau eraill a fabwysiadwyd gan wladwriaeth i roi grym i ddarpariaethau'r Confensiwn, ac ar y cynnydd a wnaed. Mae'n eang iawn ei gwmpas, yn cynnwys pob agwedd ar fywyd yn y DU. Mae Rhan I yn cynnwys gorolwg o sefyllfa menywod ym myd gwleidyddiaeth, ac yn economaidd a chymdeithasol, tra bo Rhan II yn darparu gwybodaeth benodol ar gyfer pob darpariaeth yn y Confensiwn.

- Mae'r gynulleidfa darged yn cynnwys gweision sifil, cyrff anllywodraethol, y cyhoedd yn ogystal â gweinyddwyr y llywodraeth a gwleidyddion. Bydd yr Uned Menywod a Chydraddoldeb (WEU) yn gofyn i swyddogion o'r gweinyddiaethau datganoledig ymuno â chynrychiolwyr y DU pan gaiff y pumed adroddiad ei archwilio gan y Pwyllgor.

**MATERION TRAWSRYWEDD**

- ROEDD AELOD O'R TÎM RHYWIAU YN RHAN O'R GRŴP GWAITH RHYNG-ADRANNOL AR FATERION TRAWSRYWEDD. YN DILYN PENDERFYNIADAU AR DDAU ACHOS ARWYDDOCAOL YN Y LLYS EWROPEAIDD DROS HAWLIAU DYNOL, LLE DARGANFUWYD BOD LLYWODRAETH Y DU YN TORRI'R GYFRAITH SY'N GWARCHOD HAWLIAU POBL DRAWSRYWEDDOG, SEFYDLWYD Y GRŴP I NODI PA RANNAU O DDEDDFWRIAETH Y DU SYDD ANGEN EU DIWYGIO. MAE'R DTI YN CYNNIG CYHOEDDI MESUR DRAFFT YN YR HYDREF.

**Mardi Gras:**

- Dathliad o amrywiaeth yw Mardi Gras Caerdydd-Cymru ac mae’n rhan o ddull strategol sy’n ceisio atal troseddau yn erbyn pobl hoyw a lesbiaid. Dyma'r trydydd digwyddiad hoyw undydd mwyaf yn y DU, gyda thua 30,000 o bobl yn mynychu yn 2002. Cyrhaeddodd Mardi Gras Caerdydd-Cymru rownd derfynol cynllun gwobrau blynyddol Bwrdd Croeso Cymru am Ddigwyddiad y Flwyddyn yn y "Sioe Orau yng Nghymru".

<u>**Hil**</u>

- **Monitro polisïau am unrhyw effaith niweidiol ar hybu cydraddoldeb hiliol**: Cyflawnwyd gwaith gyda'r Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol i drafod i ba raddau mae gweithredu polisïau a rhaglenni'r Gyfarwyddiaeth yn mynd i'r afael ag anghenion gwahanol grwpiau hil. Dan raglen Cymunedau'n Gyntaf, datblygwyd cysylltiadau uniongyrchol gyda'r Rhwydwaith Sector Gwirfoddol Du a'r Tîm Cefnogi Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig ac mae’r cysylltiadau hyn wedi parhau.

- **Hyfforddiant Race to Change**: Nodwyd a darparwyd ffyrdd arloesol o ysgogi staff Cynulliad Cenedlaethol Cymru i wella eu hymwybyddiaeth a'u dealltwriaeth o faterion cydraddoldeb. Bu'r Uned Polisi Cydraddoldeb yn gweithio mewn partneriaeth â Heddlu De Cymru, Awdurdodau Lleol ac Asiantaethau Gwirfoddol ar brosiect o'r enw 'Race to Change'. Roedd y

prosiect yn cynnwys defnyddio technegau theatr cymryd rhan i ystyried materion cydraddoldeb ac amrywiaeth.

- **Cyfarfodydd yr Ysgrifennydd Parhaol gydag aelodau Cymunedau BME:** Trefnwyd a darparwyd ysgrifenyddiaeth ar gyfer cyfarfodydd yr Ysgrifennydd Parhaol gydag aelodau o gymunedau lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru gan yr UPC. Corff trafod anffurfiol yw'r grŵp sy'n cyfarwyddo'r Ysgrifennydd Parhaol ac uwch swyddogion eraill yn uniongyrchol ar faterion yn ymwneud â chydraddoldeb hiliol a chynyddu amrywiaeth yng ngweithlu'r Cynulliad.

- **CYNGOR FFOADURIAID CYMRU:** mae llywodraeth cynulliad cymru wedi cydweithio â chyngor ffoaduriaid cymru i'w alluogi i symleiddio ei systemau gweinyddol a gwella ei wasanaeth i ffoaduriaid a cheiswyr lloches yng nghymru. mae hefyd wedi archwilio'r ddarpariaeth o arian ar gyfer swydd prif weithredwr cffc ar gyfer y 2 flynedd nesaf.

- **Fforwm Integreiddio Ffoaduriaid Cymru:** Gwnaed gwaith paratoadol ar gyfer maes newydd o waith a fyddai'n hybu'r gwaith o sefydlu Fforwm Integreiddio Ffoaduriaid Cymru. Bydd y Fforwm yn cynhyrchu Adroddiad Adolygu a Chynllun Gweithredu cychwynnol i nodi a gweithredu'r prif flaenoriaethau i gefnogi integreiddio ffoaduriaid yng Nghymru yn effeithiol a datblygu cysylltiadau mwy cadarnhaol gyda chymunedau cynhenid.

- **Gwaith estyn allan:** Gwnaed ymdrech i ddatblygu deialog, ymddiriedaeth a hyder gydag adrannau amrywiol cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru. Rhoddwyd blaenoriaeth i adrannau cymunedau BME sydd ar y cyrion, fel menywod a phobl ifanc. Rydym hefyd wedi gweithio i godi ymwybyddiaeth am swyddogaeth a chyfrifoldebau'r Cynulliad, darparu gwybodaeth ynglŷn â'r math o gymorth sydd ar gael, a manylion cyfleoedd y gall y Cynulliad Cenedlaethol eu cynnig.

- **Y Ddeddf Cenedligrwydd, Mewnfudo a Lloches:** Bu trafod parhaus gyda'r Swyddfa Gartref, yn ymwneud â mesurau i'w cynnwys yn y Mesur (Deddf erbyn hyn) Cenedligrwydd, Mewnfudo a Lloches i gychwyn, sy'n codi materion datganoli i'r Cynulliad. Mae'r rhain wedi bod yn hynod amrywiol yn cynnwys creu pyrth data, cardiau hawl, siopa-hawl, mynediad cudd i'r DU, gweithio'n anghyfreithlon, smyglo pobl ac ati.

- **Secondiadau i Gynghorau Cydraddoldeb Hiliol:** Gweithiodd y Cynulliad i gryfhau'r Cynghorau Cydraddoldeb Hiliol yng Nghymru drwy drefnu secondiadau o Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Pan nad oedd hyn yn bosib, bu'r Cynulliad yn ystyried darparu arian nawdd i gyflogi swyddogion cydraddoldeb hiliol hefyd.

- **Cyngor Rhyng-ffydd :** Cyflawnwyd gwaith i gael gwybodaeth a sylwadau gan gymunedau ffydd amrywiol Cymru yn dilyn 11 Medi. Gweithiodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ar y cyd â chynrychiolwyr allweddol i annog a chyflwyno agwedd unedig at gysylltiadau rhyng-ffydd yng Nghymru.

- **Lleoliadau hyfforddiant gweithredu cadarnhaol yn yr UPC:** Trefnodd yr UPC 4 lleoliad hyfforddi i weithwyr dan hyfforddiant a myfyrwyr BME.

**Materion Cydraddoldeb Cyffredinol**

- **Ymgynghoriadau:** Ymatebodd yr UPC i amrywiaeth o ymgynghoriadau mewn meysydd fel y Ddeddf Cenedligrwydd, Mewnfudo a Lloches, Adroddiad Cynghori ar Fywyd yn y Deyrnas Unedig, Monitro Mynediad i'r UE, Dilyniant i Adroddiad Parekh – Rhoi Argymhellion ar Waith mewn Llywodraeth, a Rheolau Gweithdrefn y Comisiwn Apeliadau Mewnfudo Arbennig.

- **Diwrnod Amrywiaeth:** Diben y Diwrnod Amrywiaeth oedd nodi Diwrnod Rhyngwladol Hawliau Dynol ar 10 Rhagfyr, a defnyddio hyn fel cyfle i godi ymwybyddiaeth staff o faterion cydraddoldeb a dathlu amrywiaeth. Trefnwyd nifer o ddigwyddiadau ac arddangosfeydd i swyddfeydd y Cynulliad yng Nghymru, yn ystod y cyfnod 11-13 Rhagfyr. Roedd gan bob swyddfa gysylltiad fideo ar gyfer y digwyddiadau amser cinio.

- **Hyfforddiant Cydraddoldeb ac Amrywiaeth:** Mynychodd holl staff y Gyfarwyddiaeth sesiynau hyfforddi undydd ar gydraddoldeb ac amrywiaeth.

- **Gwobrau Amrywiaeth Cymru**: Noddwyd digwyddiad Gwobrau Amrywiaeth Cymru gan y Cynulliad.

**GRANTIAU**

**Clymblaid Genedlaethol Menywod Cymru (CGMC):** Mae'r Cynulliad wedi darparu £50,000 tuag at gostau'r sefydliad hwn eleni. Mae CGMC yn gweithredu fel corff sy'n cynrychioli grwpiau menywod yng Nghymru ac fel corff sy'n cynrychioli'r Cynulliad ar faterion menywod.

**Grantiau hyrwyddo cydraddoldeb 2002/03:** Ariannwyd pedwar grŵp ymgynghori ambarél. Roedd y rhain yn cynnwys Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan (AWEMA), Clymblaid Genedlaethol Menywod Cymru, Anabledd Cymru a Stonewall Cymru (Fforwm Lesbiaid, Hoywon a Phobl Ddeurywiol Cymru cyn hynny). Derbyniodd pob grŵp £50,000 yn flynyddol i helpu i ddatblygu polisi'r Cynulliad.

**Grantiau Bychain:** Darparwyd grantiau bychain i sawl sefydliad megis Stonewall Cymru, Cymdeithas Canolbarth Affrica, Displaced People in Action, y Cyngor Prydeinig a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Yn ogystal, dyrannwyd sawl grant bychan i'r canlynol:

- Partneriaeth Fynediad JMU – arian tuag at eu seminar 'Rhan M', i godi ymwybyddiaeth o'r rheoliadau adeiladau newydd.

- Prosiect ystadegau anabledd a oedd yn ymchwilio i nifer y bobl anabl yng Nghymru a'u hanghenion mewn perthynas â darpariaeth gwasanaeth.

- Cymdeithas Saheli Cymru Gyfan – arian i helpu i gynnal llinell gymorth i fenywod.

- MIND – arian i helpu gyda sesiwn llawn yn y Gynhadledd Flynyddol.

- Displaced People in Action – arian i helpu digwyddiad yn edrych ar brofiad ceiswyr lloches

- Cyngor Ffoaduriaid Cymru – arian at 'Wythnos Ffoaduriaid' (digwyddiad diwylliannol sy'n dathlu cyfraniad economaidd, cymdeithasol a diwylliannol ffoaduriaid a cheiswyr lloches i gymdeithas Prydain).

- Seremoni Gwobrau Amrywiaeth Diwylliannol Blynyddol Cymru. Darparwyd £10,000 i gefnogi'r ail Seremoni Wobrwyo yn Neuadd Dewi Sant Caerdydd.

**Un Corff Cydraddoldeb:**

- Trwy gydol y flwyddyn, bu'r Uned Polisi Cydraddoldeb yn gweithio gydag Uned Gydraddoldeb ac Amrywiaeth yr Adran Masnach a Diwydiant ar gynlluniau i weithredu Cyfarwyddebau Hil a Chyflogaeth yr UE, ac yn arbennig ar faterion a godwyd gan yr elfennau cydraddoldeb newydd yn ymwneud â chrefydd neu gred, oedran, a thueddfryd rhywiol.

- Yn dilyn cyhoeddi dogfen ymgynghori Llywodraeth y DU, 'Towards Equality and Diversity: making it happen' (Tachwedd 2002), a oedd yn cynnig sefydlu Un Corff Cydraddoldeb, trefnodd Llywodraeth Cynulliad Cymru dri digwyddiad ymgynghori yng Nghymru ar ddechrau 2003.

- Cynhaliwyd y tri digwyddiad yn Abertawe, Cwmbran a Llandudno, ac fe'u mynychwyd gan gymysgedd o bobl o'r chwe elfen cydraddoldeb ac o wahanol sectorau, yn cynnwys undebau llafur, cyflogwyr y sector

cyhoeddus a'r sector gwirfoddol. Cafwyd cynrychiolaeth o sefydliadau eraill fel Awdurdod Datblygu Cymru, y Comisiynydd Plant, Bwrdd yr Iaith Gymraeg a sefydliadau Cymraeg eraill, er bod presenoldeb sefydliadau ieuenctid a'r gymuned fusnes yn siomedig.

- Bu Cabinet Cynulliad Cymru yn trafod materion a godwyd, a lluniwyd ymateb ysgrifenedig ffurfiol i Weinidogion Llywodraeth y DU gan Carwyn Jones AC ar ddechrau mis Mawrth. Roedd ymateb Llywodraeth y Cynulliad yn cymeradwyo, mewn egwyddor, y syniad y dylid cael Un Corff Cydraddoldeb, cyn belled nad oedd hunaniaeth yr elfen yn cael ei gwanhau mewn un corff na hierarchaeth, ac nad oedd cystadleuaeth am safle neu adnoddau rhwng unrhyw un o'r elfennau cydraddoldeb cyfredol neu newydd. Roedd yr ymateb hefyd yn nodi y byddai'n rhaid cael fframwaith cyfreithiol cyfannol fel sylfaen i'r corff unigol newydd, ac yn galw am Ddeddf Cydraddoldeb Sengl, i ddod â lefel amddiffyn yr elfennau cydraddoldeb newydd (oedran, crefydd a thueddfryd rhywiol) at lefel yr elfennau cyfredol.

- **Hawliau Dynol:** Cynhaliodd Llywodraeth y Cynulliad ac adran yr Arglwydd-Ganghellor ddwy Sioe Deithiol lwyddiannus ar hawliau dynol yn 2002-03, yng Nghaerdydd a Llandudno. Cafwyd cynrychiolaeth o gyrff cyhoeddus a sefydliadau eraill, yn cynnwys canolfannau cyngor ar bopeth a grwpiau gwirfoddol. Nod y Sioeau Teithiol oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i fynychwyr ar gyfraith achos ddiweddar, ac annog datblygiad diwylliant hawliau dynol ac arferion da yn y maes ymysg cyrff cyhoeddus yng Nghymru.

## IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

### CYFARWYDDIAETH Y GIG:
### ADRAN GIG CYMRU (AGIGC)

**Anabledd**

- Trefnwyd cynadleddau a digwyddiadau eraill i ystyried anghenion mynychwyr megis mynediad i gadeiriau olwyn, materion symudedd, nam ar y clyw / golwg, gofynion dietegol a dewis iaith.

- Hysbyswyd sefydliadau GIG o'u dyletswyddau a'u cyfrifoldebau dan y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd (DGSA). Mae AGIGC wedi gorchymyn pob Ymddiriedolaeth i ystyried y DGSA yn llawn wrth gyflwyno cynigion ar gyfer adeiladau newydd neu adnewyddu adeiladau.

**Hil**

- Mae sawl cyhoeddiad allweddol ar gael mewn nifer o ieithoedd a fformatau i adlewyrchu amrywiaeth ethnig ac anghenion cleifion sy'n defnyddio'r GIG yng Nghymru.

**Materion Cydraddoldeb Cyffredinol**

- Mae holl staff AGIGC wedi derbyn hyfforddiant ar Ymwybyddiaeth o Gydraddoldeb, a rhoddir y gwersi a ddysgwyd ar waith wrth weithredu'r cynllun adrannol.

- Mae AGIGC wedi meithrin ethos cyfle cyfartal a chydraddoldeb, ac yn dilyn ei egwyddorion wrth weithio â chydweithwyr yn y Cynulliad, a'r cyhoedd. Mae AGIGC yn cynnwys sefydliadau cydraddoldeb mewn trafodaethau / ymgynghoriadau ar ddatblygu polisi a chomisiynau ymchwil.

- Mae'r Adran yn glynu at y cynllun gweithredu 'Prif Ffrydio Cydraddoldeb mewn Penodiadau Cyhoeddus' i annog amrywiaeth ymysg ymgeiswyr am swyddi cyhoeddus. Mae'r broses ddethol a phenodi hefyd yn dilyn egwyddorion y Comisiynydd ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus. Caiff swyddi eu hysbysebu'n eang ac aelodau eu dethol mewn ffordd sy'n sicrhau'r dewis o ymgeiswyr ehangaf posib i adlewyrchu'r gymuned mae'r GIG yn ei gwasanaethu. Croesewir ac anogir ceisiadau gan bobl o grwpiau nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n ddigonol.

**IS-ADRAN HYBU IECHYD (IHI)**

**Anabledd**

- **Astudiaeth o Ymddygiad Iechyd Plant oedran Ysgol**: Mae'r astudiaeth hon yn canolbwyntio ar hunan-ganfyddiadau pobl ifanc 11-16 oed o anabledd. Mae hefyd yn cynnwys asesiad manwl o anghydraddoldeb cymdeithasol. Bydd yr adroddiad rhyngwladol ar arolwg 2001-02 yn cael ei lansio yn hydref 2003.

- **Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Fyddardod**: Cwblhawyd yr hyfforddiant hwn ac ymrwymwyd i archwilio'r angen am hyfforddiant pellach.

**Tueddfryd Rhywiol**

- **Ymgyrchoedd hybu iechyd HIV**: Cafwyd dwy ymgyrch yn targedu dynion hoyw yng Nghymru. Mae gwerthusiad o'r ymgyrchoedd wedi dangos eu bod yn briodol ac yn dderbyniol gan y grŵp targed. Bydd y contract i ddarparu'r gwaith hwn yn cael ei ymestyn am flwyddyn arall.

- **Adolygu Targedau Cynnydd mewn Iechyd Cyfredol**: Mae gan y fframwaith ar gyfer datblygu Targedau Cynnydd mewn Iechyd newydd elfen benodol ar anghydraddoldeb iechyd. Cyhoeddwyd y targed newydd ym mis Mawrth 2003.

**Hil**

- **Rhaglen Health ASERT Cymru** – Comisiynwyd ym mis Chwefror 2002. Mae'n archwilio materion hybu iechyd ymysg ffoaduriaid / ceiswyr lloches a theithwyr yn ogystal â grwpiau lleiafrifoedd ethnig.

**Materion Cydraddoldeb Cyffredinol**

- **Rhaglen Gwybodaeth Iechyd Gwledig (RGIG**): Cwblhawyd prif waith y rhaglen ymchwil i faterion iechyd a lles yng nghefn gwlad Cymru. Mae'r gwaith o ddosbarthu a chyhoeddi'r prif ganfyddiadau a'r argymhellion yn mynd rhagddo.

- **Cynllun Grantiau Hybu Iechyd y Sector Gwirfoddol (CGHISG**): Cwblhawyd deuddeg prosiect a dderbyniodd grantiau gan y Cynllun hwn. Nid yn unig mae sefydliadau cydraddoldeb y sector gwirfoddol (fel Ymddiriedolaeth Terence Higgins) yn derbyn arian ond maent hefyd yn allweddol i broses ymgynghori y cylch newydd.

- **Rhwydwaith Cynlluniau Ysgolion Iach Cymru (RCYIC)**: Mae chwe Cynllun Ysgol Iach wedi'u hachredu gyda 300 ysgol yn rhan o'r Rhwydwaith. Mae cynlluniau ar waith ym mhob un o'r 22 Awdurdod Unedol.

**IS-ADRAN DIOGELU IECHYD Y CYHOEDD (IDIC)**

**Anabledd**

- Datblygwyd Cynlluniau Cyhoeddi i bob pwyllgor cynghori statudol cysylltiedig ag iechyd sy'n datgan y bydd darparu copïau o gofnodion / agendâu mewn gwahanol fformatau yn cael ei ystyried ar gais.

**Hil**

- Cyhoeddwyd amrywiaeth o daflenni gwybodaeth i'r cyhoedd ar faterion iechyd mewn 9 o ieithoedd lleiafrifoedd ethnig ac ar CD-ROM.

- Gweithio'n agos gyda Chyngor Ffoaduriaid Cymru i gefnogi anghenion ffoaduriaid a cheiswyr lloches.

**IS-ADRAN STRATEGAETH IECHYD Y CYHOEDD (ISIC)**

**Anabledd**

- **Lles yng Nghymru (Gwell Iechyd Gwell Cymru II)**: Cynhyrchwyd y ddogfen ymgynghori mewn print mawr, Braille ac ar dâp sain a dechreuwyd ei dosbarthu'n eang trwy lyfrgelloedd, canolfannau gwaith yn ogystal â'i darparu ar y we.

- **Anghenion Gwybodaeth Iechyd Grwpiau sydd â nam ar eu Golwg**: Cyhoeddwyd crynodeb ymchwil o'r adolygiad llenyddiaeth ac mae'n cael ei ddosbarthu ar hyn o bryd.

### Oedran

- **Yr ymgyrch flynyddol Gofal Piau Hi y Gaeaf Hwn**: Roedd ymgyrch 2003 yn darparu gwybodaeth a chymorth i bobl 65 oed a throsodd i'w helpu i gadw'n iach yn ystod y gaeaf. Parhaodd i ddarparu cymorth i bobl â nam ar eu golwg, mewn partneriaeth â'r RNIB. Yn ystod ymgyrch Gofal Piau Hi y Gaeaf Hwn 2002-03, cynhaliodd RNIB 40 o sesiynau gwybodaeth cymunedol oedd yn cynnwys 830 o bobl, a phum diwrnod agored a fynychwyd gan 180 o bobl. Cyfeiriwyd dros 100 o bobl oedd â nam difrifol ar eu golwg i Gynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref. Defnyddiodd yr RNIB Bapurau Llafar a chyhoeddiadau print mawr hefyd i gyflwyno negeseuon yr ymgyrch i gynulleidfa fwy.

### Materion Cydraddoldeb Cyffredinol

- **Cronfa Anghydraddoldebau Iechyd**: Parhau i ddatblygu'r Gronfa i ysgogi a chefnogi gweithredu lleol i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd, a'r ffactorau sy'n cyfrannu ato, yn cynnwys anghydraddoldebau mynediad i wasanaethau iechyd.

- **Asesu'r Effaith ar Iechyd**: Mae Uned Gymorth Asesu'r Effaith ar Iechyd yng Nghymru wedi bod yn hyrwyddo'r broses o ddatblygu a defnyddio asesiad o effaith iechyd ledled Cymru ac yn cydweithio'n agos ag Awdurdodau Lleol a thimau Cymunedau'n Gyntaf i gynnwys y dull hwn yn eu prosesau cynllunio. Mae'r dull hwn yn ceisio cynnwys ystyriaeth i anghydraddoldebau iechyd. Mae'n sicrhau nad yw canlyniadau iechyd posib gwahanol benderfyniadau, boed yn gadarnhaol a / neu'n negyddol, yn cael eu hanwybyddu. Gall helpu hefyd i nodi cyfleoedd newydd i warchod a gwella iechyd pobl trwy gynnwys gweithredu mewn gwasanaethau lleol, gweithgareddau a datblygiadau eraill.

## GRŴP IECHYD PROFFESIYNOL

### Anabledd

- Gweithio gyda chydweithwyr yn yr Is-adran Gwybodaeth a Chyfleusterau Iechyd i wella a moderneiddio gwasanaethau y GIG i'r rhai â nam ar eu clyw.

### Hil

- Cymryd rhan lawn ym mhob menter cydraddoldeb ganolog yn y Grŵp ac yn y byd ehangach, ac wedi gweithio gyda Chymdeithas Ddeintyddol Prydain, Cyngor y Ffoaduriaid a Phwyllgor yr Adran Iechyd ar Ddeintyddion sy'n Ffoaduriaid.

- Gweithio gyda'r Adran Adnoddau Dynol ar recriwtio gweithwyr o dramor, cefnogi meddygon a deintyddion sy'n geiswyr lloches a meddygon tramor ac o leiafrifoedd ethnig yng Nghymru.

- Gweithio ar y cyd gyda'r Adran Iechyd ar wella strwythur gyrfa meddygon gradd gyrfa nad ydynt yn ymgynghorwyr – graddau sy'n cynnwys cyfran uwch o feddygon tramor na'r graddau ymgynghorydd a hyfforddi.

**Materion Cydraddoldeb Cyffredinol**

- Gweithio gyda'r Adran Addysg Ôl-raddedig Ddeintyddol i gynyddu cyfleoedd i ddeintyddion tramor ddilyn hyfforddiant galwedigaethol yng Nghymru, ac i drefnu cynlluniau "dychwelyd i ymarfer" i bobl a gollwyd o'r proffesiwn yn sgil ymrwymiadau teuluol ac eraill.

- Gweithio gydag Asiantaeth yr Amgylchedd i hyrwyddo'r broses o ddatblygu a defnyddio asesiad o effaith iechyd ledled Cymru a Lloegr, a chynnwys y dull hwn yn eu prosesau cynllunio mewn perthynas ag agweddau iechyd rheoli gwastraff. Mae'r dull hwn yn ceisio cynnwys ystyriaeth i anghydraddoldebau iechyd. Mae'n sicrhau nad yw canlyniadau iechyd posib gwahanol benderfyniadau, boed yn gadarnhaol a / neu'n negyddol, yn cael eu hanwybyddu. Gall helpu hefyd i nodi cyfleoedd newydd i warchod a gwella iechyd pobl trwy gynnwys gweithredu mewn gwasanaethau lleol, gweithgareddau a datblygiadau eraill.

- Gweithio gyda Chymdeithas Cyfarwyddwyr Diogelu Iechyd y Cyhoedd yng Nghymru i lunio strategaeth i'r dyfodol, i gynnwys datblygu cyfle cyfartal a hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg.

- Cydweithio â Chymdeithas Fferyllol Frenhinol Prydain ar gyfrifiad fferyllwyr cofrestredig y Gymdeithas.

- Gweithio gyda Phwyllgor Cymru ar gyfer Datblygiad Proffesiynol Fferylliaeth (WCPDP) i sicrhau cyfle cyfartal wrth ddarparu datblygiad proffesiynol i fferyllwyr a'u staff cefnogi.

- Darparu cyngor ar hybu iechyd, yn arbennig mewn perthynas â maethiad. Hefyd, canolbwyntio ar hyrwyddo lles a helpu'r rhai sydd mewn amgylchiadau mwy anodd i ddysgu am faethiad iach fel eu bod yn gallu helpu eu hunain a'u teuluoedd.

## ADDYSG A DYSGU GYDOL OES

### ADRAN HYFFORDDIANT AC ADDYSG (AHA)
### IS-ADRAN DYSGU GYDOL OES (IDGO)

**Materion Cydraddoldeb Cyffredinol**

- Mae'r Is-adran Dysgu Gydol Oes (IDGO) yn cymryd diddordeb mawr yn sut mae'r Cyngor Cenedlaethol yn gweithredu amcanion Llywodraeth y Cynulliad ar gydraddoldeb ac amrywiaeth ac yn ymateb i ofynion deddfwriaethol mewn perthynas â grwpiau difreintiedig a dileu unrhyw achosion o wahaniaethu yn eu herbyn. Mae cyfle cyfartal a chynhwysiant cymdeithasol wedi bod yn thema sy'n codi ei phen dro ar ôl tro yn y llythyrau cylch gwaith a gynhyrchwyd gan yr IDGO i'r Gweinidog AAH i anfon i'r Cyngor Cenedlaethol. Mae'r rhain felly yn themâu trawsbynciol yn strategaeth gorfforaethol a chynlluniau'r Cyngor.

- Mae'r Cyngor Cenedlaethol hefyd wedi archwilio cyfle cyfartal ymysg ei gyflogwyr, wedi dechrau adolygu ei bolisi cyfle cyfartal ei hun, wedi cyflwyno polisi ar aflonyddu staff a bydd yn cynnwys cyfleoedd yn ei drefniadau cynllunio a chyllido newydd arfaethedig ar gyfer addysg ôl-16 oed. Mae hefyd yn ceisio helpu darparwyr addysg i gyflawni eu rhwymedigaethau dan Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995.

**IS-ADRAN ADDYSG UWCH (IAU)**

**Anabledd**

- Yn dilyn ymchwiliad gan SKILL i anghysonderau amlwg yn y ffordd o weithredu Lwfans Myfyrwyr Anabl, sefydlwyd Fforwm Cymru Gyfan i fynd i'r afael â'r broblem.

**Materion Cydraddoldeb Cyffredinol**

- Mae cyfle cyfartal yn thema ganolog i bolisïau cyffredinol yr IAU ar symud rhwystrau i ddysgu, ehangu mynediad a chymryd rhan, a gwella lefelau cadw myfyrwyr. Mae staff wedi mynychu sesiynau hyfforddi gorfodol ar gyfle cyfartal ac amrywiaeth.

- Cafodd y sector AU ei annog yn llwyddiannus i gynnal adolygiadau peilot o gyflog cyfartal.

## IS-ADRAN SAFONAU A PHERFFORMIAD (ISP)

### Rhyw

- Arweiniodd proses recriwtio ACCAC at benodi dau aelod newydd – dwy fenyw.

### Materion Cydraddoldeb Cyffredinol

- Gwnaed newidiadau pellach i fformiwla ddyrannu GEST er mwyn adlewyrchu materion amddifadedd

- Mae'r adolygiad o dargedau perfformiad yn debyg o arwain at ddangosyddion mwy cynhwysol.

## IS-ADRAN POLISI HYFFORDDIANT, SGILIAU A GYRFAOEDD (PHSG)

### Anabledd

- Sefydlwyd Gwobr Hyfforddi newydd yng Nghymru yn 2003 i ddathlu "Blwyddyn Ewropeaidd Pobl Anabl".

### Oedran

- Symud y rhwystrau oedran o Raglenni Ieuenctid.

## MATERION CYDRADDOLDEB CYFFREDINOL

- Datblygwyd a chytunwyd ar ddatganiad Cydbwysedd Gwaith-Bywyd, a chymerodd yr Is-adran gyfrifoldeb dros strategaeth Sgiliau Sylfaenol Cenedlaethol i Bob Oedran yn hydref 2002.

# YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A CHEFN GWLAD

## GRŴP AMGYLCHEDD A CHYNLLUNIO (YR ADRAN DRAFNIDIAETH, CYNLLUNIO A'R AMGYLCHEDD YN FLAENOROL)

### Materion Cydraddoldeb Cyffredinol

- **Bwrdd Cydraddoldeb Adrannol:** Sefydlwyd y rhwydwaith a'r Bwrdd Cydraddoldeb Adrannol ym mis Mehefin 2001. Ei swyddogaeth oedd trafod a hyrwyddo cyfle cyfartal, a darparu sianel gyfathrebu ddwy ffordd ar faterion cydraddoldeb rhwng staff ac uwch reolwyr, yn ogystal ag ymweld â phrosiectau cymunedol a rhwydweithio â sefydliadau cydraddoldeb.

## Y GYFARWYDDIAETH DRAFNIDIAETH

### Anabledd

- Mae darparu trefniadau gwell i alluogi pobl anabl i symud o gwmpas yn elfen o bolisi cydraddoldeb sy'n cael ei gyflenwi gan well trafnidiaeth gyhoeddus. Prin yw'r polisïau trafnidiaeth perthnasol neu'r pwerau sy'n effeithio ar fynediad i bobl anabl neu faterion tebyg sydd wedi'u datganoli i'r Cynulliad Cenedlaethol. Uned symudedd yr Adran Drafnidiaeth (DfT) sy'n arwain ar y materion hyn, tra bod cwmnïau cludiant a darparwyr eu seilwaith yn talu'r costau sy'n gysylltiedig â gwella mynediad. Serch hynny, mae'r Is-adran yn gweithio i sicrhau bod ymrwymiadau diwydiant a'r Llywodraeth i wella mynediad i bobl anabl yn cael eu hadlewyrchu wrth wneud penderfyniadau ar ein cynlluniau grant ein hunain, yn enwedig y Grant Trafnidiaeth (sy'n gallu ariannu gwelliannau seilwaith fel codi uchder platfform) a'r Grant Gwasanaethau Trafnidiaeth Leol. Yn ogystal, fel rhan o'n sylwadau ar gynlluniau cyllido (fel yr SRA neu fentrau Ewropeaidd) asiantaethau eraill, byddwn yn cynrychioli anghenion teithwyr sy'n cael anhawster i symud mewn perthynas â gwasanaeth neu orsaf arbennig, pan fyddwn yn ymwybodol ohonynt.

- Mae'r Pwyllgor Ymgynghorol ar Gludiant Pobl Anabl (DPTAC) yn cael ei gynrychioli ar Fforwm Cludiant Cymru. Rydym yn sicrhau bod safbwyntiau'r DPTAC (a rhai grwpiau eraill sydd â diddordeb mewn mynediad i bobl anabl) yn cael eu hystyried fel rhan o waith y Fforwm, a bod sefydlu grŵp cynghori i Gymru yn cael ei ystyried.

### Oedran

- Yn y flwyddyn ddiwethaf, mae'r is-adran wedi cyflwyno prisiau consesiwn i ddynion dros 60 oed. Cynhyrchwyd y llenyddiaeth oedd yn cyd-fynd â chyflwyno'r Cynllun Prisiau Consesiwn mewn amryw o ieithoedd. Nodwyd camau gweithredu y bydd y Cynulliad yn eu datblygu yn y dyfodol gan Strategaeth Diogelwch Ffyrdd Cymru, gan amlygu anghenion cerddwyr sy'n oedrannus ac sy'n cael anhawster i symud.

### Materion Cydraddoldeb Cyffredinol

- Elfen allweddol o bob polisi trafnidiaeth yw'r ffordd y gall hwyluso mynediad i addysg a hyfforddiant, gwaith, gwasanaethau hamdden a lles i bob grŵp yn y gymuned. Mae hyn yn berthnasol o ran darparu cysylltiadau strategol i gysylltu cymunedau, ac i wella mynediad i'r grwpiau sy'n cael anawsterau ariannol neu gorfforol i ddefnyddio trafnidiaeth breifat. Gall polisi trafnidiaeth gyhoeddus, felly, fod yn gyfrwng cadarnhaol i wella cydraddoldeb, gan ei fod yn fwyaf defnyddiol i'r rhai mwyaf anghenus. Yn arbennig, gall polisi ar drafnidiaeth bws a thrafnidiaeth gymunedol, sy'n gwasanaethu mwy o blant a phobl ifanc, yr henoed, menywod a phobl ddiwaith, gael effaith wirioneddol ar fynediad cyfartal yn y cymunedau mae'n eu gwasanaethu. Wrth ddatblygu'r polisi

ar drafnidiaeth, mae'r Is-adran felly wedi blaenoriaethu'r angen i ystyried sut i brif ffrydio rhyw, oedran, neu faterion mynediad cyfartal eraill.

- O ran ei staff ei hun, mae'r Polisi Trafnidiaeth wedi hyrwyddo strategaethau gweithio hyblyg i alluogi staff i gyfuno ymrwymiadau gwaith a bywyd teuluol. Rhoddwyd cefnogaeth i weithio'n rhan-amser, oriau cywasgedig a gweithio o gartref a byddant yn parhau i dderbyn cefnogaeth.

## YR IS-ADRAN CYNLLUNIO

### Materion Cydraddoldeb Cyffredinol

- Hwylusodd yr is-adran y broses o lofnodi Cytundeb Cynllunio rhwng Llywodraeth y Cynulliad a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC). Mae'r cytundeb hwn yn adlewyrchu'r ffaith fod cydraddoldeb yn cael ei brif ffrydio yn y system gynllunio 'Polisi Cynllunio Cymru' (Mawrth 2002), sydd yn ei dro yn nodi goblygiadau cyfle cyfartal a mynediad i bawb i'r system gynllunio.

- Cyhoeddwyd Nodiadau Cyngor Technegol ar Ddylunio oedd yn rhoi mwy o fanylion technegol na pholisïau dylunio 'Polisi Cynllunio Cymru'

- Sefydlwyd Comisiwn Dylunio Cymru i hyrwyddo a chefnogi'r defnydd o ddylunio wrth greu adeiladau, llefydd a mannau hygyrch a chynaliadwy

- Cafodd Fforwm Cynllunio Cymru (sy'n cynnwys cynrychiolwyr o lywodraeth leol, Cymorth Cynllunio, grwpiau lleiafrifoedd ethnig, grwpiau anabledd, a sefydliadau menywod, yn ogystal ag o randdeiliaid allweddol eraill yn y system gynllunio) y dasg o weithredu fel seiat drafod i weithredu agenda 'Cynllunio: Cyflawni i Gymru', gan brif ffrydio ystyried cyfle cyfartal yng ngwaith yr Is-adran.

## YR IS-ADRAN CEFN GWLAD

### Materion Cydraddoldeb Cyffredinol

- Mae'r Is-adran wedi elwa a dysgu o ymgynghori'n llwyddiannus â grwpiau anabledd ac ethnig ar yr agenda fynediad, er enghraifft wrth ddrafftio canllawiau statudol ar Gynlluniau Gwella Hawliau Tramwy (a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2003).

### Gwarchod yr Amgylchedd:

- Mae ymgynghoriadau ym mhob maes wedi cynnwys buddiannau cydraddoldeb

- Cynigiwyd ac anogwyd cyfleoedd i bobl dduon a phobl o leiafrifoedd ethnig gysgodi gwaith a chael profiad gwaith yn yr Is-adran

- Cynghorwyd Asiantaeth yr Amgylchedd yng Nghymru i ddatblygu polisïau ar gydraddoldeb trwy swyddogaeth noddi'r Is-adran.

## YR ADRAN AMAETHYDDIAETH

### RHYW

- Bu'r Grŵp yn chwilio am gyfleoedd i greu, a meithrin cyswllt â menywod mewn grwpiau ffermio ac mae'n parhau i wneud hynny. Yn wir, bu'r Is-adran Polisi Amaethyddol a Physgodfeydd yn arwain y ffordd trwy drefnu cyfarfod rhwng Gweinidogion y Cynulliad a changen Sir Benfro o Undeb Bwyd ac Amaeth y Menywod.

### Materion Cydraddoldeb Cyffredinol

- Trefnodd yr Is-adran Iechyd Anifeiliaid leoliadau gwaith i ddau unigolyn ifanc fel rhan o'r rhaglen Cyfle Cyfartal ac Amrywiaeth.

- Mae gan bob is-adran yn ARAD Hyrwyddwyr Cydraddoldeb.

- Yn ystod 2002, mynychodd holl staff y Grŵp gwrs hyfforddi ar Ymwybyddiaeth o Gydraddoldeb a drefnwyd gan yr Uned Polisi Cydraddoldeb.

- Mae is-adrannau'r grŵp eisoes wedi dadansoddi'r sefyllfa staffio mewn perthynas â gradd, rhyw, ethnigrwydd, oedran, anabledd a phatrwm gweithio, neu maent wrthi'n trefnu hynny. Bydd y data hwn yn cael ei fonitro i nodi cyfleoedd ar gyfer ehangu nifer staff yr Is-adrannau.

- Mae cyfle cyfartal yn eitem sefydlog ar agendâu misol holl gyfarfodydd Rheoli'r Is-adrannau.

- Mae trefn ac amcanion unigol rheoli perfformiad yn adlewyrchu'r angen a nodwyd am faterion cydraddoldeb ar lefel unigol a changen.

### Hil

- Mae ARAD newydd gwblhau ei ymgais cyntaf i gwblhau Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol pro-forma. Bydd hwn yn cael ei ddefnyddio i gynhyrchu papur ymgynghori i'r Cynulliad cyfan a fydd yn nodi perthnasedd y testun, y wybodaeth sydd gennym ar effeithiau a blaenoriaethau ar gyfer gweithredu ym mhob maes polisi.

## DIWYLLIANT, Y GYMRAEG A CHWARAEON

### CADW – HENEBION CYMRU

### ANABLEDD

- Darparwyd hyfforddiant ymwybyddiaeth o anabledd i staff sy'n delio â'r cyhoedd.
- Hyfforddwyd pensaer fel archwilydd mynediad i bobl anabl.
- Cwblhawyd rhan gyntaf o'r archwiliadau mynediad i bobl anabl mewn nifer o safleoedd.
- Cwblhawyd model rhithwir o Abaty Tyndyrn sy'n darparu dull y gellid ei ddefnyddio i fynd i'r afael â materion mynediad, ymysg pethau eraill.
- Ar ôl ymgynghori â'r Comisiwn Hawliau Anabledd, cyhoeddwyd y ddogfen 'Goresgyn y Rhwystrau' sy'n rhoi canllawiau ar fynediad pobl anabl i adeiladau hanesyddol.

## DATBLYGU ECONOMAIDD A THRAFNIDIAETH

### ADRAN DATBLYGU ECONOMAIDD A THRAFNIDIAETH:

### MATERION CYDRADDOLDEB CYFFREDINOL

**Hyfforddiant ac addysg:**

- Anogwyd yr holl staff i fynychu'r sesiwn ar Ymwybyddiaeth Sylfaenol o Gydraddoldeb
- Derbyniodd pob aelod o staff newydd wybodaeth am y polisi cyfle cyfartal a'u cyfrifoldebau trwy'r Rhaglen Hyfforddiant Cynefino.
- Cafodd yr holl staff gyfle cyfartal i ddatblygu eu hunain.

### CYDBWYSEDD GWAITH-BYWYD:

- Cwblhawyd gwaith i helpu'r holl staff i allu cydbwyso gwaith ac ymrwymiadau teuluol yn foddhaol.

**IS-ADRAN MATERION EWROPEAIDD AC ALLANOL (IMEA)**

- Mae'r Fforwm Masnach Ryngwladol yn cynnwys sefydliadau o'r sectorau preifat, cyhoeddus a gwirfoddol. Mae Masnach Cymru Ryngwladol hefyd yn cysylltu â chynrychiolwyr y Rhaglen Busnesau Ethnig i sicrhau cynhwysiant a'u cynrychiolaeth ar y Fforwm.

- Anfonwyd y ddogfen ymgynghorol 'Strategaeth Fasnachol Ryngwladol ar gyfer Cymru' i'r holl bartïon er mwyn iddynt gael cyfle i roi sylwadau ar y strategaeth hirdymor i Gymru

- Mae gan yr IMEA gynrychiolydd ar y Bartneriaeth Gydraddoldeb Ewropeaidd (sy'n cynnwys sefydliadau fel Chwarae Teg, y Comisiwn Cyfle Cyfartal, y Comisiwn Cysylltiadau Hiliol a'r Comisiwn Hawliau Anabledd). Mae'r grŵp yn cyfarfod yn rheolaidd i ystyried amrywiaeth o faterion sy'n tarddu ar lefel Ewropeaidd.

**IS-ADRAN POLISI ECONOMAIDD (IPE)**

**MATERION CYDRADDOLDEB CYFFREDINOL**

- Sefydlwyd y Grŵp Gwaith ar Fframwaith Economaidd Cymdeithasol ym mis Tachwedd 2002, a bu'n canolbwyntio ar faterion cydraddoldeb

- Cyd-gomisiynu (gyda'r Is-adran Plant a Theuluoedd a'r Is-adran Polisi Hyfforddiant, Sgiliau a Gyrfaoedd) adroddiad gan Chwarae Teg i gyfleoedd economaidd ar gyfer gofal plant a gofal i'r henoed (cyflwynwyd ar ddiwedd mis Mawrth 2003)

- Cyfrannwyd at 3 cynhadledd (Gogledd, Canolbarth a De Cymru) a drefnwyd ar y cyd gan WEFO a'r Is-adran Plant a Theuluoedd i godi proffil cyfleoedd cyllido ar gyfer prosiectau gofal plant yn rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol.

**IS-ADRAN ARLOESI A THWF CYNALIADWY (ATC)**

**MATERION CYDRADDOLDEB CYFFREDINOL**

- Anfonwyd **Cymru o Blaid Arloesi**: Cynllun Gweithredu Arloesi at yr holl bartneriaid ar restr ymgynghori Is-adran Diogelu'r Amgylchedd 6 iddynt allu rhoi sylwadau ar y cynllun ar gyfer Cymru.

**SWYDDFA CYLLID EWROPEAIDD CYMRU:**

## Y RHYWIAU

**Cydbwysedd rhwng y rhywiau mewn partneriaethau lleol a rhanbarthol:**

- Yn y tymor canol, mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi nodi y dylai o leiaf 40% o Bwyllgorau a grwpiau arbenigol fod yn fenywod neu'n ddynion. Nodwyd hyn mewn dogfen gan y Comisiwn ar 7 Gorffennaf 2000 (Dogfen 300Y0718 (01)). Gwnaed cynnydd sylweddol i gyflawni'r targed isaf o 40% o gynrychiolaeth gan y ddau ryw ar bartneriaethau. O'r 25 o bartneriaethau lleol a rhanbarthol mae:

    - 9 wedi cyrraedd y targed;
    - 9 â llai nag un aelod yn brin;
    - 2 ag un aelod yn brin;
    - 4 â llai nag 1.5 aelod yn brin;
    - Mae hyn yn golygu mai dim ond un bartneriaeth sydd â thri aelod yn brin.

- Mae'r Comisiwn wedi sylwi ar y cynnydd sylweddol yn y maes hwn. Dywedodd Manfred Beschel, o'r Comisiwn Ewropeaidd " …*you seem to take gender balance more seriously in the implementation than other regions that I am dealing with*".

**Cynhadledd Prif Ffrydio:**

- Cynhaliwyd Cynhadledd ar Brif Ffrydio Rhywiau ar ddydd Llun 13 Mai 2002 yng Nghanolfan Dylan Thomas Abertawe.

- Cyd-drefnwyd y Gynhadledd gan y DU (Cymru), Iwerddon a'r Comisiwn Ewropeaidd. Nod y gynhadledd oedd hwyluso'r gwaith o brif ffrydio'r ddau ryw yn effeithiol yn rhaglenni cronfeydd strwythurol y DU ac Iwerddon, ac roedd yn canolbwyntio ar agweddau rheoli y broses weithredu. Roedd canlyniadau'r gynhadledd yn cynnwys set glir o argymhellion / camau gweithredu i sefydliadau ar bob lefel: rhaglen, rhanbarthol, cenedlaethol ac Ewropeaidd.

## MATERION CYDRADDOLDEB CYFFREDINOL

- **Partneriaeth Cydraddoldeb Ewropeaidd Cymru:** Sefydlwyd y Bartneriaeth ym 1997 gydag aelodau o'r cyrff Cydraddoldeb Statudol. Prif nod y bartneriaeth yw cynnwys cyfle cyfartal elfennau datblygu, cymeradwyo a monitro prosiectau cronfeydd strwythurol, a datblygu mesurau newydd i brif ffrydio cyfle cyfartal wrth ddatblygu Cymru yn economaidd. Mae'r prif nod wedi parhau ac aelodaeth y bartneriaeth wedi ehangu i gynnwys y Sectorau Gwirfoddol a Phreifat (Cynrychiolaeth gan y WDA).

- **Uned Gydraddoldeb:** Mae'r Uned hon yn rhoi cyngor, canllawiau a hyfforddiant ar ddatblygu, monitro a gwerthuso prosiectau i Bartneriaethau

a staff WEFO ac yn nodi bylchau mewn darpariaeth ac yn annog prosiectau newydd.

- **Uned Cefnogi Cydraddoldeb**: Bydd Uned Cefnogi Cydraddoldeb yn cael ei sefydlu, diolch i ddarpariaeth cyllid ar y cyd (CCC a Chymorth Technegol Amcan 1 a 3). Bydd hon yn cynnwys 1 Swyddog Gweithredol Uwch / Prif Swyddog ac 1 Cynorthwy-ydd Gweinyddol. Prif gylch gorchwyl yr Uned hon fydd darparu gwybodaeth am Gronfeydd Strwythurol i holl sefydliadau cydraddoldeb Cymru; cyfarwyddo'r Prif Weinidog ar faterion allweddol, a darparu cymorth ysgrifenyddol i'r bartneriaeth Cydraddoldeb Ewropeaidd.

- **Hyfforddiant:** Mae Uned Gydraddoldeb WEFO wedi dechrau ar raglen hyfforddiant cydraddoldeb graddol i staff a Phartneriaethau Lleol a Rhanbarthol. Mae'r hyfforddiant wedi'i seilio'n benodol ar gydraddoldeb y prosiectau ac yn ystyried sut orau y gall staff WEFO a'r Partneriaethau helpu prosiectau yn ystod y camau perfformio, ymgeisio, monitro a gwerthuso. Rhoddwyd pwyslais arbennig ar gysondeb wrth asesu prosiectau.

## CYLLID, LLYWODRAETH LEOL A GWASANAETHAU CYHOEDDUS

### IS-ADRAN MODERNEIDDIO LLYWODRAETH LEOL (MLIL)

#### Anabledd

- Mae'r Is-adran Moderneiddio Llywodraeth Leol wedi bod yn gweithio tuag at wella gallu pobl â nam ar eu clyw i gymryd rhan mewn cyfarfodydd y Cyngor Partneriaeth.

#### Hil

- **Cael mwy i gymryd rhan:** Nid oes gan leiafrifoedd ethnig gynrychiolaeth ddigonol ymysg cynghorwyr awdurdodau lleol. Cynhaliodd Llywodraeth Cynulliad Cymru rai digwyddiadau ar y cyd gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i egluro swyddogaeth cynghorwyr, ac mae wedi cynhyrchu taflen ar "sut i fod yn gynghorydd". Bydd yn gofyn am gyngor gan Uned Gydraddoldeb Llywodraeth Leol a'r Cynghorau Cydraddoldeb Hiliol ar lunio taflen mewn ieithoedd eraill. Mae'n cydweithio â'r Uned Gydraddoldeb i baratoi cynigion ar gyfer digwyddiadau pellach wedi'u targedu at grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, i ysgogi diddordeb pobl, ac i godi ymwybyddiaeth am sut i sefyll etholiad ar gyfer cynghorau lleol.

#### Materion Cydraddoldeb Cyffredinol

- **Arweiniad Cymunedol:** Yn eu swyddogaeth fel arweinwyr cymunedol, mae angen i awdurdodau lleol ymwneud â holl gymunedau eu hardal a

gweithio gyda sefydliadau partner. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio gyda'r Uned Gydraddoldeb i ddatblygu canllawiau ymarferol i helpu awdurdodau lleol i ymwneud yn fwy effeithiol â gwahanol grwpiau ethnig, fel bo ystyriaethau cydraddoldeb hiliol yn cael eu hadlewyrchu'n llawn yn strategaeth gymunedol pob ardal awdurdod lleol. Bydd y canllawiau hyn hefyd yn mynd i'r afael â'r angen i gysylltu â phobl sy'n anoddach i'w cyrraedd yn cynnwys pobl anabl, a phobl ifanc.

- **Gwelliant Parhaus:** Mae gofyn i bob awdurdod lleol gynhyrchu Cynllun Gwella Blynyddol. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gofyn i 'Syniad' a'r Uned Gydraddoldeb i archwilio pa mor dda maent yn adlewyrchu rhwymedigaethau statudol awdurdodau lleol ar gydraddoldeb hiliol, ac agweddau eraill ar gyfle cyfartal, a bydd yn sicrhau bod unrhyw argymhellion ar sut y gallai awdurdodau lleol gryfhau eu cynlluniau gwella mewn perthynas â chyfle cyfartal, yn cael eu gweithredu.

- **Cytundebau Polisi:** Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn llunio cytundebau polisi 3 blynedd gyda phob awdurdod lleol, i redeg o fis Ebrill 2004 i fis Mawrth 2007. Bydd yn trafod targedau cytunedig penodol, neu fesurau llwyddiant, sy'n dangos beth fydd yr awdurdod yn ceisio'i gyflawni wrth ddarparu cyfle cyfartal. Mae cyfle cyfartal yn cael sylw penodol yn y prospectws ar gyfer cytundebau polisi, gyda chyngor yn cael ei roi gan gyrff cydraddoldeb.

- **Lleisiau Lleol:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi treialu arolwg cyffredinol o farn y cyhoedd am wasanaethau awdurdodau lleol. Nid yw wedi penderfynu eto a yw am gynnal arolwg o Gymru gyfan. Os bydd yn penderfynu gwneud hynny, bydd y contract yn cynnwys gofyniad i gael data ystadegol sylweddol ar farn pobl o leiafrifoedd ethnig yng Nghymru.

- **Adolygiad o fesurau perfformiad:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gofyn i Uned Ddata Llywodraeth Leol Cymru gynnal adolygiad 2 flynedd o'r dangosyddion a ddefnyddiwyd i fesur perfformiad awdurdodau lleol. Bydd yr Uned Gydraddoldeb yn gweithio gyda'r Uned Ddata i ddatblygu mesurau sy'n rhoi syniad gwell o pa mor dda mae awdurdodau lleol yn cyflawni eu dyletswyddau dan Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygiad) 2000, ac i wella cyfle cyfartal yn gyffredinol.

- **Sipsiwn Crwydrol:** Bu Is-adran Moderneiddio Llywodraeth Leol y Cynulliad hefyd yn gweithio i gydlynu'r broses o ddatblygu polisïau i sipsiwn a chrwydriaid. Mae Pwyllgor Cyfle Cyfartal y Cynulliad wedi bod yn cynnal adolygiad o sut mae sipsiwn a chrwydriaid yn cael eu trin dan reolau a pholisïau cyfredol. Yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad, trosglwyddwyd y prif gyfrifoldeb i'r Uned Polisi Cydraddoldeb. Fodd bynnag, mae'r is-adran moderneiddio llywodraeth leol yn dal yn rhan o gyfraniadau perthnasol.

## CYNULLIAD CORFFORAETHOL

### GRŴP GWASANAETHAU PERSONÉL A LLETY

**Materion Cydraddoldeb Cyffredinol**

- Mae'r Grŵp cyfan yn ymwybodol o'r angen i gydnabod manteision gweithlu amrywiol a'r angen i sicrhau hynny hyd eithaf ein gallu. Mae'r grŵp bob amser yn chwilio am gyfleoedd i bobl weithio'n rhan-amser, ac i annog y rhai ag anabledd neu'r rhai o ystod eang o gefndiroedd ethnig i ymgeisio am swyddi. Mae'r Grŵp hefyd yn ceisio sicrhau bod mynediad i'w holl leoliadau yn diwallu anghenion ei weithlu amrywiol. Rhoddir cefnogaeth lwyr i staff newydd a chyfredol sydd am gael trefniadau gweithio gwahanol megis rhannu swydd, gweithio'n rhan-amser neu weithio o gartref. Cynigir cymorth arbennig i rieni sy'n gweithio ac eraill sydd â chyfrifoldebau teuluol, i'w galluogi i gynnal cydbwysedd gwaith-bywyd. Yn ystod y flwyddyn, lansiodd y Cynulliad Bolisi Gofalwyr a chynyddwyd cyfnod mamolaeth o 18 wythnos i 26 wythnos ar dâl llawn. Cyflwynwyd Deddf Cyflogaeth 2002 hefyd sy'n rhoi hawl statudol i rieni sydd â phlentyn / plant dan 6 oed, neu blentyn / blant anabl dan 18 oed i ofyn am drefniant gwaith hyblyg.

- Mae'r holl reolwyr yn y Grŵp yn cael gorchymyn i weithredu polisi drws agored i alluogi staff i fynegi eu barn ar gyfle cyfartal. Mae hyn yn galluogi rheolwyr unigol i werthfawrogi anghenion llawn eu staff ac i nodi unrhyw broblemau posib yn y cyfnod cynnar. Mae pob Is-adran yn cynnal cyfarfodydd cangen ac adran rheolaidd sy'n rhoi cyfle i staff godi pryderon a mynegi eu barn.

- Mae hyfforddiant a datblygu yn faes gweithgarwch pwysig arall y mae'r Grŵp yn ceisio sicrhau cyfle cyfartal ynddo. Mae'r Grŵp yn ymrwymedig i sicrhau bod pob aelod o staff yn cael cyfle cyfartal i ddatblygu eu gyrfa. Anogir yr holl staff i fanteisio ar ystod eang o gyfleoedd hyfforddi trwy drafodaeth ac asesiad rheolaidd gyda'u rheolwyr llinell. Mae pob Is-adran yn cynnal 'diwrnodau i ffwrdd' yn rheolaidd i sicrhau bod staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau, a'u cyfleoedd ar gyfer datblygu o fewn fframwaith eu llwyth gwaith eu hunain a llwyth gwaith yr Is-adran am y flwyddyn i ddod.

Yn ogystal â dyletswydd y Cynulliad trwyddo draw i sicrhau cyfle cyfartal i bawb, mae gan y ddwy Is-adran yn y Grŵp swyddogaethau penodol o ran hyrwyddo cyfle cyfartal trwy'r Cynulliad a thu hwnt.

**YR IS-ADRAN BERSONÉL (IB)**

**Materion Cydraddoldeb Cyffredinol**

- Mae'r Is-adran wedi lansio Polisi Urddas yn y Gwaith, sy'n egluro dyletswydd gofal y sefydliad i frwydro yn erbyn bwlio ac aflonyddu yn y gweithle. Caiff y polisi ei gefnogi gan Swyddogion Cyswllt Aflonyddu (HCOs) sydd wedi'u lleoli drwy'r swyddfa. Yn ystod 2002-03, hyfforddwyd 26 HCO ac mae'r rhain yn gallu darparu cymorth i achwynwyr ac egluro proses Urddas yn y Gwaith. Cynhaliwyd Digwyddiadau Rhwydweithio er mwyn rhoi canllawiau a chefnogaeth i HCOs. Cyflwynwyd Llinell Gymorth Bwlio ac Aflonyddu fel cynllun peilot cychwynnol o 6 mis i gefnogi Urddas yn y Gwaith. Darparwyd y gwasanaeth gan gyflenwr allanol oedd yn cynnig gwasanaeth 24 awr i staff oedd angen cymorth. Daeth y cyfnod peilot i ben ac mae'r Is-adran wrthi'n gwerthuso'r gwasanaeth hwn.

- Mae'r Is-adran wedi diweddaru'r data ar ethnigrwydd ar system TG mewnol yr Is-adran yn barod ar gyfer newid i'r system TG Adnoddau Dynol newydd sydd i'w lansio yn 2003-04.

- Mae'r Is-adran hefyd wedi cynnal archwiliad anabledd trwy'r sefydliad cyfan gyda'r gyfradd ymateb yn 40%.

- Mae'r Is-adran wedi cymryd rhan mewn ymarfer meincnodi gan "Opportunity Now", sefydliad sy'n hyrwyddo cyfle cyfartal yn y gweithle. Derbyniodd y Cynulliad Wobr "Aur" a chlod uchel am ei waith arbennig ym maes cydraddoldeb rhwng y rhywiau. Enillodd y Cynulliad hefyd Wobr Cyflog Cyfartal Castle yn 2002 am fod yn arweinwyr o ran hyrwyddo cydraddoldeb a chyflog cyfartal.

Mae'r is-adran wedi cydlynu nifer o fentrau estyn allan yn cynnwys:

- **Cynllun Lleoliadau Hyfforddiant BME (Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig):** Lansiwyd y cynllun peilot hwn ym mis Ionawr 2002 a daeth i ben ym mis Mawrth 2003. Nod y cynllun oedd rhoi profiad gwerthfawr o weithrediadau'r Cynulliad, a sicrhau cyfle cyfartal a hyrwyddo mwy o amrywiaeth a gweithredu agored i grwpiau nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n ddigonol. Cwblhaodd 16 o bobl eu lleoliad hyfforddiant yn llwyddiannus. Roedd y cynllun yn agored i unrhyw un o gymunedau lleiafrifoedd ethnig Cymru. Mae'r Uned Polisi Cydraddoldeb yn gwerthuso'r cynllun gyda'r bwriad o ddatblygu ac ehangu'r fenter yn sylweddol yn y dyfodol.

- **Lleoliad i Fyfyrwyr Israddedig (Lleoliad brechdan):** Cyfnod o brofiad gwaith sy'n dechrau rhwng mis Gorffennaf a mis Medi bob blwyddyn ac sy'n para am o leiaf 48 wythnos (uchafswm o 50 wythnos) yw lleoliad i fyfyrwyr israddedig. Daw y flwyddyn leoliad ar ôl dwy flynedd o astudio mewn prifysgol ac mae'n agored i fyfyrwyr o bob cefndir. Yn 2003, bu 21 o fyfyrwyr ar leoliadau brechdan yn y Cynulliad.

- **Busnes yn y Gymuned – Cynllun Mentrau Amrywiaeth:** Nod y Mentrau Busnes yn y Gymuned yw dileu rhwystrau yn y gweithle yn cynnwys gwahaniaethu ar sail hil, rhyw, anabledd ac oedran. Mae'r cynllun arbennig hwn yn ceisio datblygu a gwella cyfleoedd recriwtio i bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig. Mae'r cynllun yn cynnig cyfle i unigolion fynd ar leoliad gwaith 100 awr wedi'i deilwra gyda'r Cynulliad. Caiff y cynllun ei arwain gan alw. Derbyniwyd y cais diwethaf gan BITC ym mis Medi 2002.

- **Cynllun Menter y Fargen Newydd – 50 o apwyntiadau wythnos:** Nod cyffredinol Cynllun Menter y Fargen Newydd yw helpu grwpiau nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n ddigonol, a'r rhai ar fudd-daliadau hirdymor, i gael gwaith. Mae'n rhoi cyfle iddynt ddatblygu'r sgiliau a'r profiad mae cyflogwyr yn gofyn amdanynt er mwyn iddynt ddod o hyd i swyddi parhaol a gwerth chweil. O 1998 i 2003, cafodd 43 o bobl eu recriwtio ar gyfer y Fargen Newydd, 16 ohonynt wedi cael swydd barhaol trwy recriwtio allanol. Yn ddiweddar (Haf 2003) buom yn treialu menter y Fargen Newydd i bobl anabl a chafodd 11 o bobl eu recriwtio dan y fenter hon, gyda 2 arall yn aros i ddechrau.

- **Sefydliadau BME yng Nghymru a Chodi Ymwybyddiaeth:** Ers mis Mai 2003, rydym yn anfon manylion pob hysbyseb recriwtio allanol i sefydliadau lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru.

## IS-ADRAN GWASANAETHAU RHEOLI (IGRh)

### Materion Cydraddoldeb Cyffredinol

- Mae'n bosib gweithio'n rhan-amser a mabwysiadwyd dull hyblyg o weithio. Nid oes neb dan anfantais yn sgil cyfyngiadau amser.

- Rhoddir ystyriaeth i bob cais am hyfforddiant cyfle cyfartal hyd yn oed os nad yw'r cyrsiau'n hollol berthnasol i'r swyddi presennol. Yn wir, caiff staff eu hannog i fanteisio ar y cyfleoedd hyn.

- Mae'r ffaith fod gan yr is-adran staff mor amrywiol yn adlewyrchu ei pholisi o annog amrywiaeth yn y gweithle. Yn ystod y flwyddyn, cydnabyddodd yr is-adran anghenion pobl sy'n byw i ffwrdd o'u gwledydd gwreiddiol a bu'n cymryd rhan yng nghynllun lleoli ffoaduriaid. Cwblhaodd hyfforddai o 'gynllun lleoli pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig' brofiad gwaith 6 mis gyda thîm prosiect adeiladu'r cynulliad.

## GRŴP CYLLID:
## IS-ADRAN CYNLLUNIO ARIANNOL

### Materion Cydraddoldeb Cyffredinol

Mae'r Is-adran yn ceisio hyrwyddo cyfle cyfartal yn ei arferion caffael trwy:

- Ddatblygu ein meini prawf gwerth am arian i ystyried polisïau ac arferion cyfle cyfartal cyflenwyr

- Nodi'r wybodaeth rydym am ei chael gan ddarpar gyflenwyr yn glir, er mwyn i ni allu gweithredu'r meini prawf hynny'n deg – dylai'r rhain gynnwys tystiolaeth fesuradwy, ymarferol o'u hymrwymiad i gydraddoldeb o ran eu harferion gwaith, eu polisi recriwtio, eu cynllun cyfle cyfartal a'u trefniadau cytundebol ag eraill

- Gwahodd darpar gyflenwyr i ddisgrifio eu polisïau a'u cymwysterau cyfle cyfartal i ni, tra'n gofalu i beidio â gosod rhwystrau diangen ar fynediad i farchnadoedd y sector cyhoeddus

- Gweithio gyda chyflenwyr i nodi sut y gall eu polisi cyflogaeth a pholisïau ac arferion eraill adlewyrchu'r cod ymarfer gwirfoddol.

- **Polisi Caffael y Cynulliad:** Gwahoddwyd yr holl gyflenwyr i lofnodi cod gwirfoddol, a oedd yn nodi gweledigaeth a gwerthoedd. Cytunwyd ar y cod hwn gyda'r Comisiwn Ewropeaidd. Hyd yn hyn, mae 1,119 o gyflenwyr wedi llofnodi'r cod.

- **Grantiau dewisol y Cynulliad:** Mae'r grŵp wedi datblygu a chyflwyno cod gwirfoddol, yn debyg i'r un uchod, y gellir ei ddefnyddio ar y cyd â'r grantiau dewisol niferus a delir gan y Cynulliad. Gwahoddwyd y rhai oedd yn derbyn grant i lofnodi'r cod hwn, a chytuno ar set o werthoedd yn ymwneud â chydraddoldeb.

**Cronfeydd Data:**

- **Cyflenwyr:** Datblygwyd y gronfa ddata hon a'i chodio i alluogi'r Cynulliad i ddadansoddi nodweddion y busnesau sy'n cyflenwi nwyddau a gwasanaethau. Bydd hyn yn galluogi'r Cynulliad i sicrhau bod cyflenwyr o gymunedau lleiafrifol yn gallu cystadlu'n gyfartal am gyfleoedd busnes.

- **Sector Gwirfoddol:** Sefydlwyd cronfa ddata hefyd i ddadansoddi'r cyllid sy'n cael ei roi i'r sector gwirfoddol gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Bydd y gronfa ddata hon yn rhoi dealltwriaeth glir o ddosbarthiad y cyllid, ac yn helpu i sicrhau bod sefydliadau sy'n ymwneud â chydraddoldeb yn derbyn cyfran addas o gyllid y sector gwirfoddol.

## SWYDDFA'R CWNSLER CYFFREDINOL

### Materion Cydraddoldeb Cyffredinol

- Sicrhaodd Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol bod pob cyngor cyfreithiol a deddfwriaeth eilaidd yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth cyfle cyfartal

- Gwnaed gwaith i gynyddu nifer y patrymau gwaith gwahanol, yn cynnwys oriau gwaith hyblyg, gwaith rhan-amser a gweithio o gartref

- Cynhaliwyd gweithgareddau allanol megis presenoldeb mewn ffeiriau cyfraith prifysgolion, yn yr Eisteddfod Genedlaethol, a chynnal wythnos brofiad gwaith.